

ECO'R WYDDFA

Yn y rhifyn hwn

- Dathlu canmlwyddiant T. Rowland Hughes tud. canol
- Llanrug yn Bencampwyr tud. 19
- Kia Ora Tatoo tud. 5

RHIF 300

MAI 2003

PRIS 40c

PEN-BLWYDD HAPUS

ECO'R WYDDFA

RHIF 1 CHWFROR 1976 PRIS : 8c

EICH PAPUR CHI

Dyma fo o'r diwedd - papur bro plwyfi Llanrug. Llanberis a Llanddiniolen. Bu'r gobaith o sefydlu papur o'r math yma yn freuddwyd i lawer ers sawl blwyddyn. Trodd y breuddwyd yn bosiblwydd ym mis Hydref 1975, a dyma fo ar ddiwedd Chwefror 1976 - yn ffaith.

EI SEFYDLU

Daeth nifer go dda o drigolion y fro at ei gilydd i Ysgol Brynrefail, Llanrug i drafod y posibiladau o'i sefydlu. Ar ôl cael sgwrs a thrafodaeth hir a chynrychiolwyr o ddau papur bro cyfagos, sef Llais Ogwen a Llau, daethpwyd i'r penderfyniad i sefydlu ECO'R WYDDFA. Mae'n dyled i'r cynrychiolwyr hyn yn fawr iawn. Aethpwyd ati yn ystod wythnosau'r gaeaf i lunio polisi a rhyw fath o gyfansoddiad i'r papur yn ogystal â dewis swyddogion i fod yn gyfrifol am wahanol adranau ac agweddau ohono.

BABI NEWYDD

Papur newydd misol fydd ECO'R WYDDFA. Gyda'i holl staff yn gweithio'n wirfoddol a di-dâl. Rhaid wrth staff i'w redeg, ond ni, trigolion y fro fydd dau'r papur.

sydd am weld ei farn, ei sylwadau, ei feirniadaeth, ei werthfawrogiad ar unrhyw ddiwyddiad neu bwn yn cael ei gyhoeddi. Beth bynnag fo'ch rheymau - agweddau i mewn.

LLWYFAN GWLEIDDYDDOL Bydd yn papur hollol annibynnol, heb gysylltiad ag unrhyw blaidd wleidyddol, enwad crefyddol nac unrhyw sefydliad arall. Yn unol â pholisi'r papur ni chaniateir i'r bwrdd golygu ddefnyddio'r papur i gefnogi na lledsenu propaganda ar ran unrhyw blaidd. Ond mae rhyddid i unrhyw blaidd i'w ddefnyddio fel llwyfan ar unrhyw achlysur i ddatgan eu barn ac i gynnwys adroddiadau o'u gweithgareddau. Felly os na

BETH DDAW O'R YSGOL?

Dair blynedd ar ddeg yn ôl, prynwyd hen Ysgol Brynrefail gan y "Rainier Foundation" i'w defnyddio yn ysgol i blant oedd ag angen addysg sylw arbennig. Oherwydd prinder arian, bu'n rhaid cau'r ysgol, ac erbyn hyn mae'r adeilad unwaith eto'n wag.

PRYDER

CAN ECO'R WYDDFA Fe gewnch yn Eco'r Wyddfa Rywberth at bob dant. Ysgrifau a barddoniaeth. A chomic boch i'r plant. Wel, prynwch Eco'r Wyddfa A chewch newyddion bro O Beniarwan a Bethal Llanrug a Chwm-y-Glo.

Cyflwyn: Eco'r Wyddfa, Eco'r Wyddfa Dyma'r papur bro. Eco'r Wyddfa, Eco'r Wyddfa, Dyma'r papur bro.

O'i wely yng Ngwasg Gwynedd Unwaith yn y mis Daw'r Eco i'ch cartrefi. Rheymol yw ei bris. Newyddion o Ddiolch, Deiniolen a Fochlwyd. Am gwyb sgwrs yr ardal Bydd Eco'r Wyddfa'n ben.

Tudalen ar chwaraeon. Llythyrau, pynciau'r dydd. A fe i ddiolch o'ch Gaei Rhaio'ch barn yn rhydd. Llanberis a Brynrefail. O Ghet y Bent i'r Nant. Wel, dyma'r papur gorau i Taid a Nain e'r plant.

Selwyn Griffiths.

wnaeth defnyddio'r cynnyg yma gennydd chi wleidyddion a changennau politiciaid y fro - peidiwch, da chi, a beio neb, Mae'r sefyllfa'n hysgu ar ddu a gwyn.

BABI CYMRAG

Babi Cymraeg fydd twm. Dyma oedd pwrpas pennaf ei sefydlu. Rydym heunydd yn cael ein hatgoffa o'r ddirywiad yn yr iaith ac hefyd broffwydoliaeth gwybodusion am ei dyddol. Mae rhai wedi mynd mor bell â rhifo'r blynyddoedd sydd ar ôl i'ddi. Allwn ni fel trigolion y fro adael i'r iaith farw dan ein trwynau? Ein gobaith mawr ni a gobaith

ECO'R WYDDFA

RHIF 100 CHWFROR 1985 PRIS: 20c

CANT!



RHIFYN ARBENNIG
Pe bai'r Eco mewn bodolaeth ganrif yn ôl, beth fyddai ei gynnwys?
Wel, ceuwch syniad go lew yn yr adroddiad sydd yn y rhifyn arbennig hwn.
Yr Eco ar y strydoedd yn cyfarfod â chwi'r darllenwyr - trowch i dudalennau 12 a 13 i weld eich barn, a'ch lluniau.

Dyma'r Cyntaf... DDOE, HEDDIW A FORY

Rhwng Chwefror 1976, pan ymddangosodd rhifyn cyntaf yr 'Eco' - a'r rhifyn hwn ym Mai 2003, daeth 300 copi i'ch cartref, pob un yn adrodd gwahanol ddigwyddiadau'r fro, y dwys a'r digrif, y cyffredin a'r anghyffredin. Dros y cyfnod hwnnw bu deuddeg golygydd yn gofalu fod y papur yn cael ei 'roi'n ei wely' yn fisol yng Ngwasg Gwynedd, a bu rhai cannoedd o wirfoddolwyr yn sicrhau fod y papur yn cael ei blygu, ei fwndelu a'i ddosbarthu i wahanol gartrefi'r fro - a thu hwnt.

Os buoch yn rhan o'r fyddin wirfoddol a fu'n cynorthwyo'r 'Eco' dros y 300 rhifyn diwethaf - DIOLCH YN FAWR. Os na fuoch - wel mae rhifyn 301 eisoes ar y gweill, a bydd y Cyfarfod Blynnyddol yn cael ei gynnal o fewn y mis. Bydd angen ysgwyddau i helpu cario baich y 300 nesaf...

ECO'R WYDDFA 200

RHIF 200 EBRILL 1994 PRIS 25c

Eco'r Wyddfa yn ddeunaw oed

Gobaith yr iaith fu'r maeth iawn, — Ei geiriau
Fu'r fagwraeth gyflawn,
A heddiw mor amryddawn
Yw'r plentyn yn llencyn llawn.

IEUAN WYN

DATHLU'R 200 DAUGANFED RHIFYN A DEUNAWFED PENBLWYDD ECO'R WYDDFA

DIOLCH YN FAWR...

Mae holl arian gwerthiant a hysebysebwy'r Eco'r Wyddfa yn cael ei aifuddsodi yn y papur ar ffurf tudalennau newyddion i chwi'r darllenwyr. Casglwyd arian ychwanegol felly ar gyfer gweithgareddau DATHLU'R 200 ac fe'u cynhelir o'r drwy haelioni'r NODDWWYR a ganilyn:

PRIF NODDWWYR
BANC Y MIDLAND • EURO-DPC
GWASG GWYNEDD • FFILMAU BRYNGWYN
NATIONAL WRIR • MATHWES
CAMBRIAN CATERING • MATTHEW BROWN.
CYFLENWYR CLWB Y LLENG BRYDEINIG, LLANBERIS

NODDWWYR ERAILL
FFILMAU'R NANT • LLUN Y FELIN
COLEG PRIFYSGOL GOGLEDD
CYNGOR CYMUNED LLANRU
CYNGOR CYMUNED LLANDE
CENAD • AWW. CAERNARF
CYMDEITHAS TAI ERYRI
SIOP Y MODUR, CAERNARFON • GWAIN BEBB (Cyffwrdd)

Rodd Pwyllogor Llywio Eco'r Wyddfa yn awyddus i dathlu'r 200fed rhifyn mewn modd a fyddai o fudd parhaol i'r fro, felly trefnwyd fel a ganlyn:

- ★ Cyflwyno setiau cyflawn o'r papur wedi eu rhwymo'n gyfrolau cain i:
 - Lyfrgell Ysgol Uwchradd Brynrefail at ddefnydd ymchwil y disgyblion;
 - Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, at ddefnydd y cyhoedd;
 - Lyfrgell Deiniolen at ddefnydd y cyhoedd.
- ★ Llundio MYNEGAI o'r 200 rhifyn, tasg sefwr a hantodol i gael hyd i

... a Dathlu'r 200

Cyrraedd y 100...

nt. lle yn trin ddedd y bro vr
torri dannedd - ac yn ail-fyw yr holl brofiadau melys a chwerw a ddaeth yn sgîl ei gyfrifoldeb.
Yna trowch i dudalen 11 at
gwerthiant, Arwel fel golygydd ac lfan fel ffotograffydd. Priodol iawn, a lithau'n garreg filtir yn hanes yr Eco yw i ni, ar ran yr



ECO'R WYDDFA

**RHIF 300
MAI 2003**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650700)

GWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(87039A)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Swm-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872270)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAI 19

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 29

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Chwefror	21 Ionawr	30 Ionawr	Cwm-y-glo	Iris Rowlands	872275
Mawrth	17 Chwefror	27 Chwefror	Llanrug	Eifion Roberts	676339
Ebrill	18 Mawrth	27 Mawrth	Waunfawr	Nan Roberts	650570
Mai	21 Ebrill	1 Mai	Deiniolen	Jean P. Jones	871550
Mehefin	19 Mai	29 Mai	Brynrefail	Gwyn Hefin Jones	870848

LLYTHYRAU

Annwyl Gyfeillion,

Nid oes raid i mi ddweud fod y
pwyllgor sydd yn trefnu
Cymanfa Eryri yn y Capel Coch,
Llanberis ar nos Fawrth, 6 Mai
ar gyfer y rhaglen deledu
'Dechrau Canu, Dechrau
Canmol' yn dibynnu i raddau
helaeth ar gyhoedduswydd trwy
golofnau Eco'r Wyddfa - wedi'r
cyfan cysylltir talgylch yr Eco a'r
Cymanfa hon, a phobl y dalgylch
rydym yn gobeithio fydd yn
presenoli eu hunain (ac eraill
wrth reswm).

Byddwn yn hynod ddiolchgar
felly pe byddai modd i'r llythyr
amgaeedig o law y Parchedig
John Pritchard a minnau
ymddangos ar dudalen arferol y
llythron yn rhifyn nesaf yr Eco.

Yn amgacedig hefyd ceir
erthygl gyffredinol ac yn ogystal
hysbyseb i'w gynnwys os
gwelwch yn dda.

Mae Arwel, sydd rwy'n sylwi,
yn Gadeirydd eich pwyllgor, yn
aelod o bwyllgor y Gymanfa ac
yn un o arweinyddion y canu ac
y mae'n hynod awyddus i'r
Cymanfa gael cymaint o
gyhoedduswydd ag sydd modd
yn yr Eco a phapurau eraill.

Gobeithio'n wir nad ydym yn
mynd a gormod o ofod. Wnewch
chi anfon y bil am yr hysbyseb

i'r cyfeiriad uchod os gwelwch
yn dda.

Yn hynod, hynod ddiolchgar
am eich cefnogaeth,

Rol Williams

(Ysgrifennydd y Pwyllgor)

Annwyl Gyfeillion,

Cymanfa Fawr Talgylch yr Eco

Carem ddal ar y cyfle hwn i
wahodd ardalwyr talgylch Eco'r
Wyddfa i Gymanfa Eryri sydd
i'w chynnal yn y Capel Coch,
Llanberis, nos Fawrth nesaf, 6
Mai am 6.30 o'r gloch (yn
brydlon, sylwer). Fe recordir y
Cymanfa ar gyfer y rhaglen
'Dechrau Canu, Dechrau
Canmol' gan Gwmni Teledu
Elidir.

Yn naturiol, mae'r Pwyllgor
fu'n trefnu'r Gymanfa hon yn
gwir obeithio y bydd ardalwyr yr
Eco, o Fetws Garmon i Lanberis,
yn cefnogi'r ymdrech ac y
byddant yn dod yn eu lluoedd i'r
Capel Coch nos Fawrth nesaf,
gan y neulltuir y rhan gyntaf i
dalw terynged i emynwyr a
chfansoddwyr a fu'n
gysylltiedig â'r ardal, gwyr fel
Gutyn Arfon; y Parchedig John
Roberts (Ieuan Gwyllt); T.
Rowland Hughes; William
Owen, Prysgol ac R. R. Morris
ac fe genir emyn o waith un sydd
yn fyw heddiw, sef Dilys Baylis o
Lanberis ar dôn o waith ei
brawd, Edwin Lloyd Jones, gan

Siân Gibson a John Eifion.

Ymysg yr emynau y mae rhai
o ffefrynau ein cenedl ac
edrychir ymlaen am ganu
gwefreiddiol a bendithiol.

Yn yr ail raglen y thema fydd
'Y Diolchgarwch' a chlywir
cyfraniad gan Gôr Plant Ysgol
Brynrefail yn ogystal.

Rydym ar ran y pwyllgor yn
erfyn ar aelodau capeli ac
eglwysi talgylch yr Eco i'n
cefnogi, ac wrth gwrs holl
aelodau y chwe chôr, yn feibion a
merched, sydd yn bod yn y
bröydd hyn.

Dyma gyfle nid yn unig i dalu
teyrnged a derbyn bendith ond
hefyd i ddangos i Gymru gyfan
fod y ddawn gerddorol gyfoes yn
dal yn amlwg yn yr ardal.

Chewch chi mo'ch siomi - a
pheidiwch a'n siomi minnau.
Dowch yn llw nos Fawrth nesaf,
Mai 6 i'r Capel Coch.

Yn obeithiol,

Parchedig John Pritchard
(Llywydd)

Rol Williams

(Ysgrifennydd)

**Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?**

YSWIRIO EICH TŶ

(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR

(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD

(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad

yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

**IEUAN
WILLIAMS**

**Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484**


► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

**Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun**



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts



**CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR**

**Down â fo atoch
a'i nôl wedyn**

Ffôn: 871782

Un Funud fach

DANGOS OCHR

Llongyfarchiadau mawr i'r Eco ar gyhoeddi ei dri chanfed rhifyn heddiw. Gall llawer ohonoch ddweud mae'n siŵr i chi brynu pob rhifyn, a diolch i chi am ei gefnogi cyhyd. Yr hyn sy'n fwy o ryfeddod yw fod ambell un wedi bod wrthi yn gweithio drosto ers y dyddiau cynnar, yn sgwennu, yn trefnu, yn hybu, yn trin arian, yn gwerthu, a diolch yn arbennig iddynt hwy. Ac wrth brynu a darllen yr Eco mae miloedd ohonoch yn dangos fod yna groeso mawr iddo yn ein plith o hyd.

Gwêl y rhifyn hwn olau dydd ddiwrnod Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd canlyniad yr Etholiad yn hysbys i'r mwyafrif ohonoch erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn. Ers wythnosau bu'r hysbysebion yn ein siarsio fod bwrw pleidlais yn ffordd o ddangos ein bod yn malio am ein hysgolion a'n hysbytai a'n hamgylchedd a'n gwlad. Mae'n siŵr gen i fod mwyafrif darllenwyr yr Eco yn malio ac wedi dangos hynny trwy fwrw pleidlais heddiw.

Sut tybed fyddwch chi'n dangos eich bod o blaid yr Efengyl ac o blaid yr Arglwydd Iesu? Neu, os oes rhai ohonoch yn ddigon caredig i ddarllen y golofn hon er nad ydych yn rhannu'r un olwg ar bethau â hi, sut fyddwch chi'n dangos nad ydych o'u plaid? Y ffordd yr ydym yn byw sy'n dangos lle safwn wrth gwrs, ac mae'n dangos hynny i ni'n hunain lawn cymaint ag i bobl eraill.

Fyddwn ni'n darllen y Beibl, er enghraifft, ac yn ffeindio'n hunain yn cael blas arno? Fyddwn ni'n gweddio, ac yn gweld fod yna ryw beth ar goll os nad ydym yn gwneud hynny? Ydym ni'n cael ein denu at bobl eraill sy'n credu yn Iesu Grist? Ydym ni eisïau dweud wrth eraill am Iesu Grist. Mae pethau felly yn dweud llawer wrthym ni ein hunain am ein ffydd.

A pha mor amlwg i bobl eraill yw'r ffaith ein bod yn credu yng Nghrist? Fyddwn ni'n dweud hynny wrthynt? Fedr pobl weld ein bod yn ceisio byw ein bywydau yn debyg i'r Iesu? Ydy'n llawenydd a'n gobaith a'n ffydd yn Nuw yn amlwg iddyn nhw? Ydy pobl yn cael yr argraff ein bod yn eu caru ac yn awyddus i'w helpu ym mhob ffordd posib?

Duw roddo ras i ni fod o'i blaid.

JOHN PRITCHARD



Ar Ben Arall y Lein

Diddorol dros ben oedd cael gwybodaeth am Llyn Doctor gan Dafydd Whiteside Thomas mewn rhifyn diwethar o'r Eco. Rwyf yn rhoi y dasg i mi fy hyn pan gaf amser i ddelfio tipyn i'r enwau ddiddorol sydd ar rannau o'n hafonydd. Fel y Saint neu'r Seiont yr adnabyddir yr afon o Ben Llyn i'r môr, ond mewn gwirionedd mae dau enw ar yr afon, sef o Ben Llyn i Bontrhythallt yr enw cywir yw Afon Rhythallt, wedyn mae'r Saint yn dechrau ar ei thaith tua Chaernarfon.

Felly dyma rai o'r enwau sy'n gyfarwydd i mi. Buasai'n ddiddorol dros ben cael mwy o wybodaeth drwy'r Eco.

Pen Llyn i Bontrhythallt: Rhyd Bach, Rhyd Mawr, Llyn Bodgelyn, Seston Fawr, Pwll Fon, Llyn Carreg y Frân a Tro Tryciau. Mae pawb wrth gwrs yn gyfarwydd â tarddiad y ddau olaf.

Pont Rhythallt i Pont Cawia: Llyn Du, Llyn Du Bach, Llyn Tomos Lewis, Llyn Garreg Fawr, Fflatiau Hen Lanciau (a adnabyddir hefyd fel Fflatiau Hogiau), Rhacadr Mawr, Llyn Garreg Lwyd, Llyn Doctor, Llyn Tywod.

Cawia i Pontrug: Rhyd Feiniog, sy'n rhedeg o Bont Cawia i Fforch Harri Parri. Ar y Feiniog rwy'n credu mae un o'r enwau mwyafrif ddiddorol ar yr afon, sef Carreg Ddedwydd. Pwy sy'n gwybod ble mae hon tybed? Mae un peth yn sicr, pan mae dŵr yr afon yn isel, mae sewin braf yn mochel yn ei chysgod bob amser. Yna Llyn Harri Parri, Llyn Plyms a wedyn Llyn Glanrafon neu Llyn y Dryw, Ynys y Dryw, Steipiau Nazareth, Fforch Pontrug.

Pontrug i Gaernarfon: Llyn William Owen, Fflatiau William Owen, Llyn Felin Wen, Cerrig Mawr, Llyn Engan, Llyn Distaw, Llyn Graig, Llyn Coeden Gelyn, Llyn Garnage, Llyn Criw, Caeau 'Rafon, Llyn Mwnci, Llyn Byts, Llyn Crwn,

Fflatiau Ffowndri, Llyn Wisgin, Llyn Du. Yng nghyffiniau Llyn Du ar un adeg roedd Llyn Potel, oes rhyw yn gwybod ble yr oedd hwn?

Mae'n sicr fod llawer o enwau eraill. Beth amdani, gafaewch yn y bensel, neu'r ffôn wrth gwrs.

* * *

Rhaid rhoi canmoliaeth i rai aelodau sydd wedi bod wrthi'n brysur yn clirio'r glannau yn ardal Pontrug. Mae meinciau a llwybrau newydd wedi eu gorffen. Gobeithio'n wir y bydd yr aelodau o'r cyhoedd sy'n mwynhau cerdded ein tiroedd yn parchu a chadw llygaid. Pam rwy'n gofyn hyn? Wel mae rhyw, yn eu doethineb, wedi chwistrellu paent ar y meinciau yn Cawia. 'Does eisïau gras!'

Mae'r gymdeithas wedi bod yn ffodus i allu manteisio ar Gynllun Datblygu Pysgodfeydd sy'n cael ei redeg gan Asiantaeth yr Amgylchedd, gydag arian o'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd yn bosib dechrau ar waith i atgyweirio criw Llyn Tywod a gwneud llwybr i'r anabl allu mynd at yr afon o'r maes parcio yn Cawia. Bydd y gwaith yma yn dechrau yn yr wythnosau nesaf.

Pluen i fis Mai: Petrisen Corff Gwin. Bachyn maint 12 neu 14. Corff - sidan lliw gwin, hackle - petrisan (pluen sydd dim yn rhy olau)

HUW P. HUGHES

DRAENOG

Tei(p) Wahanol

Mewn cyngerdd arbennig yn ystod y mis sylwedd nifer fawr o'r gynulleidfa fod gan un aelod o Gôr Meibion Dyffryn Peris dei wahanol. Gall Draenog ddatgelu nad tei wahanol oedd hi ond yr un tei ac a wisgai'r gweddill - ond fod hon wedi 'ffedio'! Effaith glasurol o'r hyn sy'n digwydd pan mae rhywun yn cysgu mewn tŷ gwydr!

DRAENOG

El Huw y Toreador!

Ar ôl i HUWcyn Cwsg ei feddiannu, dechreuodd gŵr hynaws a charedig o Faes Padarn Llanberis ddechrau pwnio ei wraig yn ddirugaredd - rhywbeth oedd yn hollol groes i'w natur. Bu'n rhaid i'r wraig godi yng nghanol y nos gan fod ei chefn yn gleisiau i gyd. Roedd yna esboniad dilys iawn. Roedd yr hen foi wedi bod mewn cae yn ymladd hefo tarw ffyrnig!

'Pa frid oedd o?' gofynnodd y wraig, gan fod amaethu yn agos at galon y ddau.

'O, BRID DA!' oedd ei ateb yntau.

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI



Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG at 675190 / 673188

O SIAMBAR SELWYN

Ys gwn i be fyddai barn yr eisteddfodwyr ffyddlon a fynychai yr Eisteddfod Genedlaethol tua chanol y ganrif ddiwethaf o glywed mai o fewn i furiau'r Faenol y cynhelir Prifwyl 2005? Ydi, mae'r Steddfod wedi mynd yn rhy fawr bellach i gael ei chynnal ar gyrion ein trefi a chael ei galw yn 'Steddfod Caernarfon, Bangor, Pwllheli neu Borthmadog. Mae talgylch ein prifwyl bellach yn eang, fel ag y mae o ym Maldwyn a'r Gororau eleni, ac fel y bydd o yn y flwyddyn 2005 pan fydd yr ŵyl ar dir y Faenol.

Chwarelwr oedd fy nhad, a gŵr y Faenol - Syr Michael Duff-Assheton-Smith oedd ei 'fos' o. Dwi ddim yn credu i 'nhad gyfarfod â'i feistr erioed, ond mi gafodd ei fab o y cyfle. O leia, fe fynodd o a'i ffrindiau gyflwyno eu hunain i sgweiar y plas.

Drwy garedigrwydd Jennie Thomas, Cefn Isa, Bethel fe gawsom ni ganiatâd i chwarae pêl-droed ar un o gaeau'r Cefn. Cotiau oedd cin pyst gôl, a mawr fyddai'r taeru yn ystod pob gêm. Er mwyn heddwch roedd angen cael pyst gôl go iawn. Felly mi benderfynwyd anfon dirprwyaeth i ofyn i Syr Michael a fydda fo mor garedig ag ystyried trefnu i ni gael pyst gôl ar gae 'Stadiwm' Cefn Isa.

Aethom un bore ar gefn ein beiciau, heibio i'r 'lodge' ar wib ac at ddrws y plasty gwyngalchog. Cyflwyno ein hunain a'n neges i'r forwyn a atebodd y drws. Do, fe ddaeth Syr Michael ei hun atom i wrando ar ein cais, ac fe gawsom afal bob un am fod mor hy, a chwarae teg i ŵr y plas, roedd 'na byst gôl go iawn ar gae Cefn Isa o fewn ychydig ddyddia. O ia, hen foi iawn oedd Syr Michael yn ein golwg ni, y ddirprwyaeth a fu mor hy a chnocio ar ddrws ei blasty i apelio am byst gôl, yn ein Saesneg bratiog.

Ys gwn i be ddywedai o pe gwyddai fod 'na bellach fylchau yn y mur, a bod gwerin gwlad yn hcidio yno bob diwedd Awst i wrando ar gantorion enwoca'r byd yng 'Ngŵyl Bryn Terfel' Ac mi fydd y miloedd yn hcidio yno i gynnal cin Gŵyl Genedlaethol yn Awst 2005 hefyd.

Cofiwch chi, mae tir y Faenol yn hen gyfarwydd â chroesawu *National Winners*. Fe lwyddodd ceffylau'r Faenol i ennill ras fawr y Grand National am dair blynedd yn olynol. *Jerry M* yn 1912; *Cover Coat* yn 1913 a *Sumlock* yn 1914.

Dwi'n cofio mam yn adrodd yr hanes fel y cafodd plant Bethel wahoddiad i'r Faenol i gael te parti i ddathlu buddugoliaeth *Jerry M* yn 1912

ac, yn ôl yr hanes, fe roddwyd diwrnod o wyliau i'r chwarelwyr hefyd a gwahoddiad iddynt i'r dathliad. Fe gyfansoddwyd cân i ddathlu'r fuddugoliaeth fawr. Dyma un pennill:

*Jerry M the famous hourse
At Vaynol you can see,
He jumped the fence, the ditch and gorse
And won the LSD.
His owner is a sportsman,
Syr Charles he is by name,
And proud he is of such a horse
That proved to be so game.'*

Cyn derbyn y gwahoddiad, bu'r chwarelwyr yn trafod a ddylent ei dderbyn ai peidio, gan fod pethau yn weddol ddrwg yn y chwarel ar y pryd, a'r cyflog fawr mwy na chardod, a sgweiar y plas yn medru gwario ffortiwn ar lwyddiant un o'i geffylau. Ydi, mae pethau wedi newid. Mae Stâd y Faenol wedi hen gilio o'r tir ond mae'r Brifwyl yn dal i dyfu.

Mae'n fis Mai. Hanner can mlynedd yn ôl fe concrwyd Everest. Dyn gwyn a dyn tywyll ei groen yn sefyll ar gopa'r byd: Edward Hillary a Sherpa Tenzing Norgay. Yr eglurhad pam na welwch chi lun o Hillary ar y copa ydi am na fedrai Tenzing drin camera. Ta wacth am hynny, daw aelodau o'r tim i ddathlu eu buddugoliaeth i fro'r Eco bob blwyddyn, i westy Pen-y-Gwryd, gan iddynt ddod yno yn rheolaidd i ymarfer ar lethrau'r Wyddfa.

Bellach dim ond saith o'r dau ar bymtheg gwreiddiol sydd ar ôl ac mae gwesty Pen-y-Gwryd yn parhau yn amgueddfa fechan sy'n cronico concro Everest.

Mae nhw'n deud i mi i'r Frenhines gael ei choroni yn Llundain tua'r un adeg. Mi wn i sicrwydd i Stanley Matthews ennill ei fedal yn y gêm ryfeddol honno rhwng Blackpool a Bolton. Oedd, roedd 1953 yn flwyddyn gofiadwy.

Gan i mi ddechrau'r ysgrif hon drwy sôn am y 'Steddfod gadewch i mi gloi drwy eich atgoffa i'r frenhines gael ei choroni yn sicr yn 1953. Digwyddodd hynny yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl pan goronwyd Dilys Cadwaladr - y ferch gyntaf i ennill Coron y Brifwyl. Prifardd sydd â chysylltiad agos iawn â bro'r Eco, gan iddi dreulio ei dyddiau cynnar ym Mrynrefail, ac mae'r dystysgrif a gafodd pan enillodd i'w gweld yn Festri Capel Brynrefail. Fe'i claddwyd ar Ionawr yr ugeinfed ym mynwent Llanrug. Darllenwch *Merch yr Oriau Mawr*, Eigra Lewis Roberts, i chi gael dilyn trocon bywyd y ferch gynta i ennill Coron ein Prifwyl.

Bydd mi fydd 'na *National Winners* yn troedio tir y Faenol yn Awst 2005 hefyd. Ond nid ceffylau fyddan nhw.

Nos Fawrth, 6 Mai
am 6.30pm

Cymanfa Eryri

i'w recordio ar gyfer y
rhaglen deledu

'Dechrau Canu, Dechrau Canmol'

Emynau gan rai fu'n
gysylltiedig â thalgylch
Eco'r Wyddfa a thema'r
Diolchgarwch

Arweinyddion:

Lowri P. Roberts Williams,
Robin Jones, Glenys Griffith
ac Arwel Jones

Organydd: Gareth Jones

Eitemau hefyd gan
Siân Gibson, John Eifion
a Chôr Plant Ysgol Brynrefail

Maes parcio ar gael

Dowch i gefnogi ac i
dderbyn bendith

Cymanfa Talgylch Eco'r Wyddfa

- wrth y drws

Cynhelir y Gymanfa nos Fawrth nesaf, Mai 6 yn y Capel Coch, Llanberis am 6.45 o'r gloch ac mae'r cwmni teledu, Elidir, yn erfyn ar i bawb fod yn eu seddau erbyn hanner awr wedi chwech, sylwer. Trefnir maes parcio.

Cenir pum emyn yn y ddwy Gymanfa, y rhan gyntaf wedi'i neilltuo i emynau a thonau rhai a fu'n gysylltiedig â phentrefi talgylch yr Eco, o Fetws Garmon i Lanberis. Yn y rhan gyntaf, cenir deuaud gan Siân Gibson a John Eifion (mae Rhian Owen yn muthu bod yn bresennol) - y ddau yn canu emyn o waith Dilys Baylis a'i brawd, Edwin Lloyd Jones.

Yn yr ail ran, bydd y pwyslais ar thema'r 'Diolchgarwch' ac edrychir ymlaen yn fawr at gyfraniad Côr Plant Ysgol Brynrefail, yn canu darn o waith yr Athrawes Gerdd, Anwen Guile.

Mae'r pwyllgor yn gobeithio y bydd corau'r ardal yno yn gryno a nifer helaeth iawn o aelodau eglwysi a chapeli yr ardal. Ni fu Cymanfa o deyrnged i'n pobl ni yn yr ardal o'r blaen, dyma gyfle unigryw felly i ddangos ein balchder a thalu gwrogaeth.

Mae angen stiwardiaid ar gyfer nos Fawrth. Os yn gallu rhoi help llaw, cysylltwch ar unwaith ag Ifor Jones yn Siop Formag yn Stryd Fawr Llanberis.

Cofiwch

Noson 'hwyl' o bêl-droed wedi ei threfnu gan Gymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail. Cynhelir hi heno (Mai 1) ar gae pob tywydd yr ardal. Os nad ydych am gicio, dowch draw i gefnogi. Dechreuir y cyfan am 6 o'r gloch.

Fel rhaghysbysiad, cofiwch hefyd am Dlws Cynradd yr Eco. Y bwriad yw ei gynnal tua diwedd Mehefin. Mae hyn yn edrych yn bell i ffwrdd, ond gyda'r gystadleuaeth yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn, mae angen trefnu ymhell o flaen llaw. Cofiwch i ni gael cystadleuaeth wych llynedd, dros ddwy noson. Bydd y ffurflen gystadlu ar gyfer y gemau pêl-droed a phêl-rwyd yn ymddangos yn rhifyn nesaf yr Eco.

DRAENOG

Stori Rydd


Dyma BRIF stori A THRO yn ei chynffon. Gwelwyd un gŵr o Lanberis yn rhuthro i'r tŷ o'r stryd a sylwodd rhai ei fod o'n rhedag yn reit od. Yn ôl pob tebyg gwrthododd yn lân a dod allan o'r lle chwech am hydoedd, er gwaethaf apelio taer aelodau eraill y teulu. Roedd o'n GWILYdd o BETH a deud y gwir. Gyda phawb erbyn hyn yn 'desperate' dechreuodd yr holi.

'Dad, yda chi ishio help?' gofynnodd y mab. Dim ateb.

'Dad, 'da chi ishio doctor?' gofynnodd y ferch. Dim ateb.

'Fasa ti'n licio mymryn o home help, gofynnodd y wraig. Dim ateb. 'For EVANS sake - BETH w't ti ishio?' gofynnodd eilwaith.

Ac yna daeth ateb gwantan o'r ochor draw, 'Dim byd mewn gwirionedd, ond os weli di GORCYN yn rh'wla - stwffia fo o dan y drws!'



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

KIA ORA TATOO

MAE Gwenllian Parry, o Benisarwaun, a'i theulu wedi bod yn byw yn Seland Newydd ers blwyddyn. Ymhen mis bydd cyfle i gael cipolwg ar ei bywyd newydd ar raglen S4C 'Ar dy Feic', wedi i Hywel Gwynfryn fynd draw yno i ffilmio. Mae Gwenllian wedi sgwennu i'r Eco am ei bywyd yn Seland Newydd ac am ymweliad y criw ffilmio o Gymru.

Daeth Efa i mewn wedi bod yn sglefrfyrrddio heno hefo bag o ffrwythau nwydus yn un llaw a dau ffotograff yn y llall. Lluniau o'r criw ffilmio yn cofnodi Hywel Gwynfryn a minnau yn cyfarfod am y tro cyntaf ar y ffordd sydd rhwng ein tŷ ni a'r Cefnfor Tawel oedd ganddi.

'Lle ar wyneb y ddaear ges ti rhiena?' oedd yr ymateb a gafodd hi!

Cymdoges sy'n byw i lawr y lôn oedd wedi eu rhoi nhw iddi. Nid ein bod ni'n 'nabod y gymdoges, ond roedd hi, fel llawer o'r bobol leol yma, wedi cymryd diddordeb yn y ffaith bod y BBC wedi dod i'n ffilmio fel teulu fis Hydref diwethaf.

Daethom allan i Aotearoa-Seland Newydd ym mis Ionawr 2002, i dreulio blwyddyn a hanner yng ngwlad y Kiwi. Roeddwn i wedi derbyn gwaith efo'r bwrdd iechyd yn Whakatane fel seicolegydd clinigol gyda gofal am blant, pobol ifanc a theuluoedd. Un o'r rhesymau y cefais gynnig y gwaith oedd am fy mod yn dod o ddiwylliant lleiafrifol, sydd wedi arfer byw yng nghysgod y bygythiad o golli iaith a thraddodiad, a'r ofn o golli hunaniaeth sy'n cerdded law yn llaw â'r bygythiad hwn. Felly hefyd yw bywyd beunyddiol y bobol Maori, sy'n ganran sylweddol o'r boblogaeth yn yr ardal yma o Aotearoa-Seland Newydd.

Docdd o ddim yn benderfyniad hawdd i ddod allan yma. Rhaid oedd i Carl roi'r gorau i'w fusnes ffotograffiaeth ym Methesda, ac roedd yn rhaid i Efa ac Iago adael ffrindiau, ysgol a ffordd o fyw gyfarwydd. Rhaid oedd dweud hwyl fawr wrth deulu: rhieni, neiniau, teidiau, chwiorydd a brawd, er mwyn trafclilio i ochr arall y blaned am flwyddyn a hanner o anturiaethau.

Prin yr oeddem yn gwybod ar y pryd ein bod am ddod ag antur i'r brodorion yn eu tro. Am gyffro a achosodd dyfodiad Hywel a'r criw ffilmio yn y dref fechan hon!

Cyn i'r criw gyrraedd mynnodd y tîm rydw i'n gweithio efo fo fod yr adeilad sy'n gartref i'n gwasanaethu angen cael sylw. Felly dyma ferch leol yn cynnig gwneud y gerddi, a dyn oedd yn pasio (yn ein gweld yn tacluso) yn cynnig llunau y gwaith paent. Mae'r bobol yn hynod am dynnu at ei

gilydd pan fo angen. Roedd cyddisgyblion Efa yn gyffro i gyd fod y criw am ddod i'r ysgol i'w ffilmio yn ymarfer y Kapa Haka. Canu a dawnsio ydi'r Kapa Haka, sy'n uno pobol yn y presennol hefo pobol y gorffennol, ac sy'n dangos gwerthfawrogiad o ysbrydion da y ddaear a'r bydysawd sy'n cynnal bywyd. Aeth y criw ffilmio i ysgol Iago hefyd, i weld sut mae nhw yn dechrau eu diwrnod o waith!


Tra'n ffilmio daeth pobol o bob twll a chornel i weld beth oedd yn mynd ymlaen. Yn un o'r golygfeydd, pan oeddwn i a Hywel yn beicio i lawr y stryd fawr, roedd hi'n rhyfeddol faint o bobol y siopau oedd yn ail-drefnu eu ffenestri tra roeddem yn ffilmio, efo hanner llygad ar y ffenest a'r un a hanner arall ar y camera!

Mewn golygfa arall aethom i'r archfarchnd leol 'Pak'N'Save'. Wel, am gywilydd! Pawb yn cymryd diddordeb, wrth gwrs. O fewn deng munud o orffen daeth ffrind ataf i adrodd yn ôl i mi am yr hyn yr oeddem ni wedi'i ffilmio yn yr archfarchnad, wedi i rywun ei ffonio hi i adrodd yn ôl. Mae



rhai pethau yr un fath ble bynnag rydych chi'n byw!

Mae Hywel yn dipyn o ges, a rhwng shots rhoddodd berfformiad bach direudus i ni, yng nghanol y stryd, o gymeriad waliaidd yn ei anorac a'i helmed feic. Roedd hi'n anodd i geidwaid y siopau guddio eu diddordeb trwy eu chwerthin. Hefyd wnâ i byth angofio ein



hymweliad â'r ffair greffttau leol, ble mae Carl yn gwerthu ei luniau. Penderfynodd Hywel gael *massage* pen hefo rhyw declyn wedi'i wneud o weiran, oedd yn debyg i bry copyn android. A beth am yr olwg ar ei wyneb pan oedd yn haneru y pen mochyn ar gyfer yr *hangi* (sef ffordd draddodiadol Maori o goginio)! Wel, fe fydd yn rhaid i chi weld dros och eich hunain ar y rhaglen!

Ond yr hyn a drawodd fi hefyd oedd y parch a'r sylw a roddodd Hywel a'r criw ffilmio i gyd i'r bobol ifanc a gyfarfyddent. Yr hogiau sy'n derbyn gwasanaeth gennym a berfformiodd eu cân rap ar gyfer y rhaglen, a'r plant ysgol a berfformiodd y KapaHaka gyda dwyster ysbryd.

Bydd sôn am amser i ddod yn Whakatane am yr amser y daeth y criw teledu o Gymru i ffilmio. 'Sgwn i faint mwy o bobol oedd allan efo'u camcrâu yn cofnodi'r cofnodi? Roedd hi'n bleser cael Hywel, Gwennan, Steve a Dafydd draw am gyfnod. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau gwyllo'r rhaglen gymaint ag y gwnaethom ni fwynhau ei gwneud!

Mae byw yn Seland Newydd yn wahanol i adref. Rydym yn byw ar y traeth ac mae hi'n braf iawn yma. Adref rydym ni'n byw yn y mynyddoedd lle mae'n oer. Cyn fy mhen-blwydd diwethaf mi nes i gael surffboard ag dwi'n mynd allan yn y môr i surffio mor aml â phosib achos mae o'n gymaint o hwyl.

Cyn dod yma mi roedd hi'n anodd iawn gadael fy ffrindiau, teulu, ysgol ac, wel, Cymru i gyd. Mi nes i adael Ysgol Penybryn ganol Ionawr 2002 ac mi rydwyf yn cadw mewn cysylltiad hefo fy hen athrawes, Mrs Lloyd. Mae fy ffrindiau rwan wedi symyd i Ysgol Dyffryn Ogwen, lle fydda i yn mynd pan rydym yn dod yn ôl i Gymru fach. Ar y funud dwi yn ysgol Whakatane Intermediate a dwi ym mlwyddyn 8. Mi ydw i wedi 'neud lot o ffrindiau newydd ag docdd hi ddim yn anodd iawn i setlo i fewn.

Kia Ora!

EFA

CHWILOTA

Tenantiaid Olaf Maes Meddygon



Addewais y mis diwethaf roi sylw i gyfraniadau a anfonwyd gryn ddeufis yn ôl bellach. Felly, yn unol â'r addewid, dyma gychwyn gyda sylw i ardal y Rhiwlas a Deiniolen. Mr Owen Jones, Llangefni, ond brodor o'r ardal, sydd wedi anfon y wybodaeth am denantiad olaf Maes Meddygon yng nghesail Moel Rhiwen.

Saif adfeilion Maes Meddygon ar y llwybr sy'n arwain o'r Rhiwlas dros ysgwydd Moel Rhiwen i'r Drosogl a throsodd i gyfeiriad Deiniolen a'r Marchlyn; llwybr digon unig a diarffordd bellach, ond un a fu'n brysur iawn ers talwm. Eiddo i Stâd y Faenol oedd y tyddyn, fel y rhan fwyaf o diroedd y fro o amgylch.

Dyma ddisgrifiad Owen Jones o'r tŷ pan oedd ei deulu'n byw yno: *'Roedd iddo un ystafell fyw gyda simdde fawr ynddi; un siambar a chrogloff. Roedd cloc mawr a dresel yn yr ystafell fyw a wnaethpwyd gan saer lleol. Prynwyd hwy gan fy nhaid a nain pan ymfudodd teulu o'r Rhiwlas i'r Unol Daleithiau. Chudwyd y ddau ddodrefnyn i Faes Meddygon gyda throl a cheffyl. Maent yn parhau ym meddiant aelodau o'r teulu heddiw; y cloc ym Mhenrhosgarnedd a'r dresel yn Neiniolen. Y tu draw i'r llwybr o'r tŷ roedd beudy, cwt mochyn a chwt icir, gyda ffynnon gerllaw.'*

Ar ddiwrnod o haf mac'r safle'n odidog, gyda'r Fenai a Môn yn ymestyn o'ch blaen; ac ar dywydd clir gellir gweld rhimyn o fynyddoedd Iwerddon, Ynys Manaw ac ucheldir gogledd Lloegr. Ond yn y gacaf mac'n llecyn didostur gyda'r gwynt mileinig o Fôr Iwerddon yn brathu wyneb y tŷ.

Mae enw'r tŷ'n ddiddorol. Dywed rhai iddo gael ei enwi oherwydd yr arfer o greu meddyginiaethau cartref yno ar un cyfnod pell yn ôl. Mae eraill yn dadlau fod yr enw'n llawer hŷn, ac mai atgof sydd yma o hen frwydrau ar y gwastadedd islaw, ac mai ar y meysydd gerllaw y câr clwyfedig eu trin. *'Rhyw bum can llath tu draw i'r twrllyn, ac yn gyfochrog â'r llwybr mae hafn ddofn yn y ddaear, tua chwarter milltir o hyd, hanner canllath o ddyfnder a deg llath ar hugain o led. Ar ei llawr mae meini gwastad. Yr enw ar lafar am yr hafn hon oedd 'Pant Lladron', ac yn ôl traddodiad, dyma'r fan y cuddiai lladron cyn ymosod ar deithwyr a groesai'r tir uchel o gyfeiriad Conwy draw am y gorllewin.'*

Maes Meddygon oedd cartref Dafydd a Catrin Jones (taid a nain Owen Jones). Symudodd y teulu yno o Stryd Becws,

Rhiwlas tua 1887. Brodorion o'r Rhiwlas oedd y ddau ohonynt; Dafydd yn fab Robert ac Elizabeth Jones, 'Rallt, a Catrin yn ferch David ac Ann Jones. Roedd Dafydd yn ŵr tal, tenau, gyda mwstach trwchus; yn dawel ei natur ac uchel ei barch. Roedd Catrin yn fechan o gorffolaeth; prin pum troedfedd o daldra, ond yn llawn bywyd. Roedd yn uniaith Gymraeg ac yn anlythrennog. *'Arferai ddweud mai un diwrnod o ysgol a gafodd erioed, a 'doedd y sgwl ddim yno'r diwrnod hwnnw!'*

Roedd iddynt chwech o blant: Ann, Elizabeth a Robert (tad Owen Jones) a anwyd yn Rhiwlas, a Dafydd, Ebenezer a Morris a anwyd ym Maes Meddygon. Bu Dafydd ac Ebenezer farw'n blant ifanc. Rhiwlas oedd yr ysgol agosaf, er fod cryn waith cerdded yno o lethrau Moel Rhiwen. Byddai'r plant yn cyrraedd aml i fore yn wlyb at eu crwyn, gan adael eu cotiau i sychu wrth y tân ncs bod cymylau o angar yn codi oddi wrthynt.

Roedd gan Robert, y mab hynaf, ei ddyletswyddau i'w cyflawni ar ôl dod adref o'r ysgol. Rhaid gofalu fod digon o fawn i gynnal y tân, ac yn ystod yr haf byddai'n helpu ci dad i dorri mawn ar y fawnog. Roedd hefyd angen cario dŵr o'r ffynnon a goruchwylio'r anifeiliaid. Byddai weithiau'n cael gwaith i gynorthwyo yng Nghae'r Gof, fferm arall heb fod ymhell i ffwrdd.

Cyfnod helbulus oedd hwn yn y chwareli llechi, yn enwedig yn y Penrhyn, ble gweithiai Dafydd Jones. Gwaethygai'r anghydfod o ddydd i dydd, ac o'r diwedd cafodd yr holl weithwyr eu cloi allan o'r gwaith. Roedd Robert bellach yn dair ar ddeg oed ac yn amser iddo adael yr ysgol a chwilio am waith. Mewn cyfnodau gwell byddai wedi dilyn ei dad i'r chwarel, ond gyda'r cload allan, nid felly y bu. Aeth i swyddfa chwarel Dinorwig, a bu'n llwyddiannus yn cael gwaith fel rybelwr. Roedd hyn yn syndod braidd gan fod cytundeb rhwng y Penrhyn a Dinorwig yn nodi na châl streicwyr y Penrhyn na'i meibion waith yn Ninorwig. Efallai i'r ffaith fod Dafydd Jones yn denant i'r Faenol er yn

gweithio i'r Penrhyn, liwio peth ar y penderfyniad.

Pan ddechreuodd Robert weithio yn Chwarel Dinorwig roedd yn wynebu taith hir fore a nos. Cychwynnai o Faes Meddygon am hanner awr wedi pump y bore er mwyn cyrraedd erbyn saith, ac roedd yn saith o'r gloch yr hwyr arno'n cyrraedd gartref. Ac wedi'r holl ymdrech, byddai'n ffodus o ddod â phum swllt o gyflog am fis o waith. Ond gyda'r tad wedi ei gloi allan o Chwarel y Penrhyn, roedd pob ceiniog yn gymorth i gadw deupen llinynn ynghyd.

Daeth llygedyn o oleuni i fywyd y teulu pan benderfynodd Assheton Smith ddathlu trigain mlynedd o deyrnasiad y Frenhines Fictoria trwy blannu coed ar Foel Rhiwen. Llwyddodd Dafydd Jones i gael gwaith yno, er mai gwaith dros dro yn unig oedd. Plannwyd y coed ar lethrau Moel Rhiwen fel bo'r bylchau rhyngddynt yn dangos yr enw 'JUBILEE'. Does ryfedd fod llawer o drigolion hŷn yr ardal yn dal i adnabod Moel Rhiwen fel 'Mynydd Jiwbili', ac ar lawer o fapiau na chawsant eu diweddarau, mae'r llethrau'n parhau i gael eu nodi fel 'Jubilee Covert'.

Pan ddaeth y gwaith ar Foel Rhiwen i ben, roedd Dafydd Jones unwaith eto allan o waith. Gwaethygu roedd y sefyllfa yn y Penrhyn, a sylweddolodd mai anhebyg fyddai o gael gwaith byth eto yn y chwarel honno. *'Rhesymai fod un aelod o'r teulu mewn gwaith sefydlog yn Ninorwig, ac mai diogelu'r swydd honno fyddai'r peth doethaf i'w wneud. Manteisiol hefyd fyddai arbed taith hir i Robert o Faes Meddygon i Dinorwig, ac felly, tua 1903 symudodd y teulu i'r hen siop chwarel, Blue Peris, Dinorwig.'*

Aeth canrif heibio bellach ers i'r teulu olaf fyw ym Maes Meddygon.

Y mis nesaf, dilynwn hanes y teulu yn eu cartref newydd yn Ninorwig a Deiniolen.

Arwerthiant Stâd Plastirion

Ar yr 2 o fis Tachwedd 1918, yng Ngwesty'r Sportsman, Caernarfon, cynhaliwyd arwerthiant o Stâd Plastirion ym mhlwyfi Llanrug, Llanwnda a Llandwrog. Dyma'r dyddiad felly, pryd y chwalwyd stâd a fu ym mherchnogaeth yr un teulu – teulu Rowlands – ers canrifoedd. Anfonwyd catalog yr arwerthiant i mi gan Mrs Helen Francis o Gaer (gynt o fferm Cilgwythwch, Llanrug), ynghyd â nodiadau ychwanegol yn gysylltiedig â'r gwerthiant. Roedd y catalog yn wreiddiol ym meddiant ei hewythr ym Melin Pontrug.

Mrs Violet Hume, wyres Syr Hugh Rowlands, ac aeres stâd Plastirion oedd yn gwerthu, a'r ocsiwniâr oedd William Dew o Fangor. Roedd dros fil o aceri o diroedd yn y tri phlwyf i'w gwerthu, gan gynnwys plasdy Plastirion ei hun, dros ugain o ffermydd a thai unigol. Ym mhlwyf Llanrug roedd y mwyafrif o'r eiddo, ond roedd tair fferm sylweddol o blwyf Llanwnda ar werth hefyd, sef Cefnhenryd, Bodaden a'r Gadlys.

Yn Llanrug, tiroedd a ffermydd yn ardal Pontrug a gwaelodion y plwyf oedd y rhai mwyaf gwerthfawr, ond roedd nifer o dyddynnod ar lethrau'r Cefn Du ac yn y Clegir ar werth, gan gynnwys rhes o dai, siop a Regent House ar sgwâr y pentref.

Ynghlwm gyda'r Catalog roedd dalen rydd mewn llawysgrif yn nodi cynigion a wnaethpwyd am wahanol eiddo. Mae'r mwyafrif ohonynt yn nodi mai 'cynnig gan y tenant' a geir, ond mae ambell un yn enwi'r cynigydd. Nid yw pob eiddo a restrir yn y catalog wedi ei gynnwys yn y rhestr cynigion. Maent yn amrywio o £100 am Garnedd Wil (y cae wyth acer ar gongl Lôn Tyddyn Rhyddid) gan R. Owen, Rhoslan, i £4850 am fferm Plastirion (150 o aceri) – 'cynnig McKinnon' (sef taid deilydd presennol y fferm). Wrth gwrs, nid oes sicrwydd mai'r rhai a restrir ar y daflen a fu'n llwyddiannus yn yr arwerthiant, na chwaith mai'r pris hwnnw a dalwyd am yr eiddo. Pwy tybed oedd 'Starkie o Birmingham' a gynigiai £1350 am 'Plastirion mansion and 20 acres'? Cynigion eraill a enwir ar y rhestr yw Greaves (perchennog plasdy Glangwna) yn nodi £2000 a £1800 am ffermydd Dolgynydd Uchaf a Dolgynydd Isaf; a Closs (Llwyn Brain) yn cynnig £400 am Bryn Fedwen bach.

Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â'r catalog yw'r ffaith fod pob cae ar y gwahanol ffermydd yn cael eu henwi. Mae'n syndod cymaint o'r enwau sydd wedi newid dros y blynyddoedd, ond mae rhai ohonynt wedi parhau – fe'u rhestrir ar fapiau degwyl plwyf Llanrug bron i bedwar ugain mlynedd yn gynharach, ac ar y map arolwg a wnaethpwyd o'r stâd yn 1814. 'Sgwn i ydi Llain Rodyn, Bonc Las, Maes Madoc a Nantalgwyn yn parhau i gael eu defnyddio ar rai o gaeau fferm Plastirion heddiw?

Mae un enw sy'n peri peth penbleth. Enwir un daliad yn 'Tyddyn Rhydd or Parc y Rhos' – tŷ a naw o gaeau ym meddiant John Pritchard, gydag arwynebedd o 46 acer. Yn cael eu cynnwys gyda'r daliad hwn

mae 38 acer ychwanegol 'of rough grazing land close to the village of Llanrug and with extensive frontages to the road from Llanrug to Bryn Bras.' Mae'r disgrifiad yn awgrymu mai Parc Minffordd yw'r borfa arw, ond ble'n union oedd Tyddyn Rhydd?

Enw arall na ddeuthum ar ei draws o'r blaen yw Clwtygraigddu: fe'i cofnodir yn un enw ar y catalog. Mae'n ymddangos mai dyma'r hen enw ar dyddyn Pendraw yn ardal y Clegir. Eiddo arall ar werth yn ardal y Clegir oedd Penybwlch (Bwlch y Groes yn hytrach na'r Bwlch Gwnnog). Mae enwau'r caeau yno'n dangos y cysylltiadau cryf â'r hen chwareli llechi: Cae Drwm, Cae Barracks a Parc Tramway. Mae un rhan o'r mynydd-dir, parc naw acer, yn cael ei alw'n Parc Betty. Tybed ai hon oedd yr hen Betty Ffowc a fu'n byw yn ardal y Clegir flynyddoedd ynghynt?

Chwilio am Deuluoedd

Ddaeth neb i gysylltiad ynglŷn â'r teulu a symudodd i Lansilin, na chwaith am deulu awdur y gân i gapel y Bryngwyn. Derbynais un alwad ffôn am yr athrawes a arferai reidio moto beic yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd, ond tybed ai'r un person ydyw? Roedd y cais gwreiddiol yn holi am Kate neu Katie Jones oedd yn byw yn ardal y Ceunant. Roedd y wybodaeth a gefais dros y ffôn yn sôn am athrawes yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis yn ystod dauddegau'r ganrif ddiwethaf. Ei henw oedd Kate Hughes, a chredir mai o ardal Clwt y Bont neu Ddeiniolen y deuai. Roedd yn athrawes ar 'Standard III' am flynyddoedd, a'r hyn oedd yn sefyll yn y cof amdani oedd y 'gauntlets' llcd'r mawr a wisgai i reidio ei moto beic.

Oes rhywrai o hen ddisgyblion Ysgol Dolbadarn yn cofio'r athrawes hon?

Hyl Achau

Daeth y dosbarthiadau yn Llanrug i ben, a diolch i'r pedwar aclod ar ddcg a fu mor ffyddlon dros y mis diwethaf. Ar ddiwedd y cyfarfod olaf cafwyd rhai ymholiadau am deuluoedd rhai o'r aelodau. Roedd un aelod yn chwilio am wybodaeth am deulu'r Fachwen, ac un arall yn ceisio llocliad Penrallt, a'r cysylltiad rhwng y tyddyn ac ardal Llain Wen yn Llanberis. A dyna beth oedd cyd-ddigwyddiad, oherwydd roedd merch William Sion, Penrallt wedi priodi Morus Wiliam, y Fachwen, a'u meibion oedd William Morus a Huw Morus a rannodd yr hen dŷ yn neuadd a chegin Fachwen. Ond nid dyna'r unig gyd-ddigwyddiad. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach cefais alwad ffôn

yn holi am hanes teulu Henry D. Hughes, sef tad y diweddar Arglwydd Cledwyn o Benrhos - ac y mae yntau hefyd yn hannu o'r un cyff. Felly, os oes unrhyw un o'r darllenwyr yn perthyn i unrhyw un o ganghennau'r teulu hwn, cysylltwch.

Gwneuthurwr Telynau o Lanberis

Bedyddiwyd Thomas Vaughan yn Eglwys y Plwyf, Llanellwyr yn 1819. Erbyn 1881 roedd yn aros yn Llanberis, yn wneuthurwr dodrefn wrth ei alwedigaeth, ac yn gweithio fel saer. Yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1876 enillodd wobr o ddegpunt a bathodyn aur am lunio telyn deires. Aeth y delyn yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod ac fe'i cyflwynwyd i ferch o Langollen a ddyfarnwyd yn orau yng nghystadleuaeth canu'r piano. Dyna'r ychydig wybodaeth sydd gennym amdano hyd yn hyn, ond mae angen mwy. Oedd o'n briod? Lle roedd ei weithdy yn Llanberis - ynteu gweithio fel saer yn y chwarel a wnâi? Faint o delynau a wnaeth? Oes rhai ohonynt yn parhau yn y fro?

Cwmniau Llongau

Mae Adran Ddiwydiant Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn chwilio am wybodaeth am gwmniau llongau a oedd yn eiddo i chwarelwyr. Maent angen gwybodaeth am Gwmni Eryri o Lanberis a Chwmni Gwynedd o Glwt y Bont. Oes gan unrhyw un o'r darllenwyr wybodaeth?

Y 300fed rhifyn

Do, fe gafwyd rhifynnau 'arbennig' i ddathlu'r cant a'r dau gant. Ond roedd 'creu' 'Eco'r Wyddfa' ganrif a dwy ganrif yn ôl yn weddol ddi-drafferth, gan fod papurau newyddion mewn bodolaeth bryd hynny, a digon o gofnodion ysgrifenedig eraill ar gael ar gyfer yr un cyfnodau. Ond mae ceisio creu papur newydd ar ffurf yr 'Eco' gogyfer â'r flwyddyn 1703 yn ormod o waith...

A dyna ddigon am y tro. Y mis nesaf cawn ddiweddglo hanes tenantiaid olaf Maes Mcdygon, a hancs darganfyddiad go anghyffredin ym Mrynrefail. Yn y cyfamser, os oes unrhyw un â sylw i'w wneud am wahanol benawdau'r mis hwn, neu ar unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r 'Eco', yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

GWERSI PIANO

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746

Ffarwelio â Gwilym Charles Williams



Cadeirydd Cymdeithas y Deillion, Jenkin Griffiths yn cyflwyno un o'r anrhegion i Gwilym Charles Williams ar ei ymddeoliad fel Cyfarwyddwr y Gymdeithas

Daeth tua 70 o bersonau i gyfarfod arbennig yng Ngwesty Victoria Llanberis yn ddiweddar. Trefnwyd y cyfarfod gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru i ffarwelio â'r Cyfarwyddwr, sef Gwilym Charles Williams, ar ei ymddeoliad ar ôl 21 mlynedd o wasanaeth.

Wrth groesawu pawb yno dywedodd Jenkin Griffiths, Cadeirydd y Gymdeithas, fod Llanberis wedi ei ddewis fel lleoliad gan fod Gwilym yn hannu oddi yno. Yn wir roedd Gwilym eisoes wedi cael sylw gan y Prifardd R. Bryn Williams yn ei gerdd i Wauncwmbwrwynog fel a ganlyn:

Daeth deugain addolwr i'r capel llwm
Rhaf o'r gwastadedd a rhaf o'r cwm;
Ac wrth dy fedyddio, Faban gwyn,
Cofiais am wynfyd y llethrau hyn.

'Yn ôl a ddeallaf,' meddai 'Gwilym oedd y baban y cyfeirir ato yn y gerdd. Felly roedd Gwilym eisoes wedi cael sylw yn hancs yr ardal o'i ddyddiau cynnar, ond heddiw dyma reswm arall i'r ardal gofio amdano fel un a roddodd un mlynedd ar hugain o wasanaeth clodwiw drwy ci arwciniaid i Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.'

Yn ystod y cyfarfod daeth cyfraniad Gwilym yn glir wrth i'r amrywiol siaradwyr ddwyn i gof y datblygiadau yn ystod y cyfnod. Talwyd teyrngedau iddo gan lu o bobl, yn eu plith Arthur Rowlands ar ran y deillion, Tom Hughes ar ran y Pwyllgor Cyllid, Paul Brenneck ar ran RNIB, Glyn Tomos ar ran y Cynghorau, Mrs Jennie Rowland Jones ar ran Clybiau'r Deillion (mae 12 ohonynt dros Ogledd Cymru), Manon Williams, un o'r Swyddogion

Adfer ar ran y staff, a chynigiwyd llwnc destun iddo gan Faer Bangor.

Pan gychwynnodd Gwilym yn ei swydd roedd y Gymdeithas wedi dathlu ei chan mlwyddiant ac yn edrych ymlaen at ddatblygu ac ehangu canolfan wybodaeth ym Mangor, a chael stiwdio recordio yno hefyd. Heddiw mae hyn wedi ei wireddu yn ogystal a chael Canolfan Casetiau Llyfrau Cymraeg yng Nghaerfyrddin. Bryd hynny roedd Llys Onnen, sef cartref i'r deillion yn Abergele, gyda un Swyddog Adfer wedi ei lleoli yno. Heddiw mae Llys Onnen yn parhau ac mae'r Gwasanaeth Adfer, mewn cydweithrediad â'r Cynghorau Sir, hefo 5 o swyddogion yn gwasanaethu Môn, Gwynedd a Chonwy. Y mae'r Ganolfan Adnoddau ym Mangor erbyn hyn yn cynnwys arddangosiad o offer a chymhorthion soffistigedig i'r gegin, y cartref a'r swyddfa, ac fe roddir hyfforddiant erbyn hyn i'r deillion cofrestredig i fanteisio ar gyfrifiaduron modern hefo meddalwedd sy'n siarad. Hyn oll i geisio adfer rhywfaint o'r hyder a'r annibyniaeth a gollwyd.

A ran pawb oedd yn brwscennol a chyfeillion craill oedd wedi cyfrannu at y dysteb, cyflwynwyd iddo deledu lliw llydan; peiriant fideo; peiriant DVD; copi o newyddiadur a gyhoeddwyd ar y diwrnod y cychwynnodd ar ei waith gyda'r Gymdeithas ynghyd â newyddiadur ar ddiwrnod ei ymddeoliad; ffeil o sylwadau a chardiau dymuniadau da nifer o ffrindiau; llun wedi ei fframio o'r Wyddfa o Ben Llyn a'r llyfr Cymru o Hud. Dymunwyd iddo ymddeoliad hir a hapus.

Waunfawr Trwy'r Oesoedd

Bu un o fechgyn y Waun yn hel atgofion am y Waun.

Pobl y Waun

JOHN EVANS: Fe'i ganwyd yn Gwredog Uchaf yn 1770 a glaniodd yn America yn 1792. Mae'n rhyfedd na chlywsom Miss Parry, athrawes yn ysgol y Waun, a oedd yn hyddysg mewn llawer pwnc, yn sôn amdano.

Y gred ydoedd fod John Evans wedi darllen am rhyw Gymro mewn ysbyty yn Efrog Newydd yn siarad yn ei gwsg yn ystod y nos, ac Indiad yn y gwely nesaf yn gofyn iddo ai dyna ei iaith, canys dyna oedd ei iaith yntau hefyd. Yn sicr nid oes cred iddo ddod ar draws y llwyth o Indiaid, o deulu'r Padoucas, a ddaeth i gysylltiad â Madog ap Owain Gwynedd pan laniodd ef yng Ngogledd America yn 1170.

Gwnaeth gyfraniad mawr i ddathlygu'r wlad trwy wneud mapiau o St. Louise a New Orleans ond bu farw o'r dwymun yn 29 oed.

CANON: Idris wrth ei enw cyntaf ond fel Canon yr oedd pawb yn ei adnabod. Arweinydd naturiol eisteddfod a chyngerdd ac yn cadw popeth yn rhedeg yn hwyliog tan y diwedd, a hynny yn aml tan ddau a thri o'r gloch y bore. Byddai corau yn trafeilio milltiroedd i gystadlu ac yn cael mynediad am hanner pris a Canon yn cadw trefn ar bethau yn ei ffordd unigryw ei hun gyda chwaeth ac ambell stori. Rwy'n credu fod rhai yn mynd i'r eisteddfod i glywed Canon yn gymaint â'r cystadleuwyr.

WIL FON: Athro yn ysgol Brynrcfail ac yn dod o deulu hynaws a dawnus. Roedd wedi ysgrifennu amryw o ddramâu ac yn eu plith 'Brwyn ar Gomin'. Roedd cael mynd i'r festri i weld y fath ddramâu yr amser honno yn gymaint o wledd i ni ac y mac pobl heddiw yn ei gael o edrych ar operau sebon.

Ysgrifennodd un ddrama ac ynddi roedd gŵr Cyrnant Lodge

yn breuddwydio mai ef ydoedd brenin Ynys Enlli. Mor boblogaidd oedd y ddrama hon fel y byddai'n cael llythrau wedi eu cyfeirio at 'Brenin Enlli'.

Roedd wedi ennill yn y genedlaethol hefyd ac yn arbenigwr ar bob mathau o bethau. Bu'n athro ysgol Sul ar ddosbarth o fechgyn ifanc a fyddai, wrth natur, yn llawn myrraeth a drygioni, ond byth yn nosbarth Wil Fôn. Roedd yn genedlaetholwr pybyr pan nad oedd hynny yn boblogaidd iawn.

MAMWS: Cafodd yr enw ar ôl gwisgo sanau ei fam i fynd i'r ysgol. Roedd y bachgen i fyny â phob mathau o driciau ac un o'i hoff ddiifyrrwch ydoedd dringo i ben coeden gyda'r nos, yng ngwaelod Allt y Bont yn aml, yna disgwyl i ryw unigolyn anffodus fynd heibio cyn gwneud y nadau mwyaf dychrynlyd a tharfu ar dywyllwch a distawrwydd. Rhywbeth tebyg i aderyn go fawr yn cael ei lindagu.

T. H. WILLIAMS: neu Tom Garreg Fawr. Gallai ysgrifennu barddoniaeth mor naturiol ac anadlu bron. Ysgrifennodd ddwsinau o benillion ar gyfer bron pob achlysur a rhoddodd yn hael o'i amser i'r gymuned. Dyma enghraifft o'i waith:

Molawd y Waunfawr

Mi wnaif bwt o gân yn awr
I'r lân Waunfawr a'i doniau.
Bu yma gewri enwog gynt,
Daw gyda'r gwynt eu geiriau;
Mae swynion fyrdd o fewn y fro
Yn tiwnio gyda'r tannau.

DAFYDD DDU ERYRI: Yma hefyd y ganwyd Dafydd Ddu Eryri (neu 'o Eryri' i fod yn gywir). Ychydig sydd yn darllen ei waith bellach gan fod chwaeth pobl wedi newid cymaint, er ei fod yn ddylanwadol iawn yn ei ddydd. Mae carreg uwchben drws ei gartref yn Allt y Bont.

OWAIN GWYRFAI: O sôn am

lenorion, cyfansoddodd Owain Gwyrfai ddwsinau, os nad cannoedd, o englynion ac mae cofeb iddo ym mynwent Betws Garmon ac arni englyn o'i waith ei hun:

Cael llonydd mewn cell unig, yn fy nydd
Yw fy nef arbennig,
Byw yn dda heb neb yn ddig
Na noddi dim aniddig.

JAC WMFFRA BACH: Rhyw gymeriad yn syth allan o un o nofelau Daniel Owen. Deuai i lawr o'r Groeslon unwaith yr wythnos, nos Wener neu nos Sadwrn fel arfer, at Mr Oliver y barbwr i dorri ei farf ac yr oedd ganddo ddigon i'w ddweud. Yr unig hanes rwyf yn ei gofio amdano yw i ryw fforman neu ben dyn ei orchymyn i 'get me a two foot rule'. 'What?' gofynnodd Jack. Roedd hynny yn ddigon i gael y sac, a dyna ddigwyddod iddo. Fel mae pethau wedi newid!

Ac mae pethau wedi newid – er gwell neu er gwaeth. Dechreuodd y newid yn raddol yn y pum degau. Yn gyfochrog bron roedd pobl capal a phobl siop chips; pobl seiat a phobl y cwt biliards; pobl eisteddfod a phobl y Majestic a'r Guild Hall; cynulleidfa cymanfa a chynulleidfa'r bws ddeg o Gaernarfon, yn aml yn canu yr un emynau. Ac yn fwyfwy yn dechrau dod yr un pobl.

Rhaid sôn am y Garreg Fawr unwaith eto. Beth sy'n hynod am y lle ydoedd y ddwy simdde fawr a'r meini mawr o gylch y drws. Unwaith erioed y bûm yno ac yn 1977 fe ddadfeiliwyd y tŷ garreg wrth garreg a'i anfon i Sain Ffagan.

Unwaith hefyd y bûm yn Llwyn Bedw – plasty bychan hynafon arall. Roedd arfbais Collwyn ap Tango – pwy bynnag oedd hwnnw – ar y mur uwchben y tân yn yr hen ran o'r tŷ. Rwy'n cofio Miss Williams yn byw yno – cymeriad arall allan o un o nofelau Daniel Owen. Cerddai a siaradai fel dyn ac os y dywedai rhywun wrthi,

'Mae'n ddigon oer, Miss Williams.'

'Ydi, mae'n oer. Dwi'n dweud wrthaf ti. Dwi'n deud wrthaf ti. Mae hi'n oer,' fyddai'r ateb. Chdi a chditha oedd pawb ganddi.

Dylid sôn hefyd am y Marconi a sefydlwyd ar ochr Cefn Du yn 1912. Roedd Marconi ei hun o dras Gwyddelig ac Eidalaidd, a phan laniodd yn Lloegr am y tro cyntaf bu i'r Saeson feddwl mai ysbŵr ydoedd.


Bu'r Marconi yn orsaf bwysig, yn wir y bwysicaf yn yr ynysoedd hyn. Anfonwyd y neges radio gyntaf o Gymru i Awstralia yn 1918, ac anfonwyd neges yn ôl gan Brif Weinidog Awstralia, William Morris Hughes, ei hun o dras Gymreig ac wedi derbyn ei addysg yn Llundudno.

Cyflogodd lawer o bobl tros y blynyddoedd a bu'n effeithiol hyd 1938 – flwyddyn ar ôl marw Marconi ei hun. Bu peth dirywiad ar ôl hynny a chredaf i glwb nos gael ei sefydlu yno yn ddiweddarach.

Un o lwyddiannau mawr y pentref yw Antur Waunfawr a sefydlwyd gan R. Gwynn Davies. Mae hanes yr Antur wedi ymddangos yn y cyfryngau droeon ac yn adnabyddus iawn bellach. Bu gwaith diflino Gwynn Davies dros y blynyddoedd er budd mawr i'r ardal a'i phobl. Mae pobl y Waun yn dal i roi o'u hamser a'u hegri yn hael i gymdeithas.

Er fod George Borrow wedi disgrifio Waunfawr yn ei lyfr *Gwylt Walia* (Wild Wales) fel y pentref prydferthaf a welodd â'i lygaid, anodd gwybod sut y daeth i'r casgliad. Nid yw'r Waun, wedi'r cyfan ond rhyw strbyn hir o bentref yn ymestyn rhyw filltir neu lai.

Hwyrach iddo edrych ar Gefn Du o Allt Coed Mawr neu Allt Coed Mawr o Gefn Du. Neu hwyrach ar Betws Garmon o Allt y Bont. Yn sicr, roedd popeth yn wahanol yr amser honno a hwyrach fod rhyw sail i farn Borrow.



J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)



Antur Waunfawr
Gŵyl Fai
Mai 5ed
1-4.00 y p'nawn
Gŵyl Amgylcheddol gyda Stondinau,
Crefftau, Adloniant, Lluniaeth,
Clip-clop,
castell bownsio a Calon Lân

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Margaret Ann Morris a'r teulu ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam a Nain annwyl, sef Mrs Ella Morris, 4 Bryn Teg, Llanberis. Diolch i bawb ym Meddygfa Llanberis, Staff a Meddygon Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ac hefyd Ward Cadnant, Ysbyty Bryn Seiont, a phawb a fu mor garedig wrthi yn ystod ei salwch. Ac i Mr Gwynfor Jones a Mr Myrddin Pritchard, Trefnwyr Angladdau a Mr Aneurin Jones, Dolbadarn am y lluniaeth. Bydd y rhoddion er cof yn mynd i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu aelodau y Gangen yn Eglwys Sant Padarn bnawn dydd Mawrth, 8 Ebrill am eu cyfarfod misol.

Cafwyd Gwasanaeth Garawys wedi ei drefnu gan ein Curad, y Barch Vittoria Hancock a hi arweiniodd ni drwy y Croeshoelio a'r Atgyfodiad. Cymerodd ein Rheithor, y Parch Philip Hughes, y darlenniadau a'r myfyrdod.

Trafodwyd ychydig o faterion busnes i ddilyn a cheisiwyd eu datrys.

Cafwyd lluniaeth ysgafn wedi eu danfon gan Mrs Nellie Morris, ac enillydd y raffi oedd Mrs Audrey Evans.

Mrs Nan Owen wnaeth y diolchiadau i'r Rheithor Vittoria a Nelli gyda Mrs Hilda Williams yn eilio. Terfynwyd drwy adrodd Y Gras.

BORE COFFI. Cynhelir Bore Coffi yn Y Bistro, Llanberis ar ddydd Gwener, 2 Mai rhwng 10.30 a 12 o'r gloch. Yr elw tuag at Gronfa Ymchwil y Galon.

DRAENOG CRYS CROES TÂN POETH

Mi aeth yn 'dân poeth' rhwng gŵr a gwraig o ardal Llanrug pan oeddynt ar eu ffordd i lawr i Gaerdydd i weld y gêm rhwng Cymru ac Azerbaijan. Tua'r canolbarth, sylweddolodd y wraig ei bod wedi anghofio pacio crysau'r gŵr. Aeth y gŵr yn gandryll - a phan yn y stâd honno fe dry i'r Saesneg am ryw reswm. 'HOW YN earth nes di lwyddo i anghofio?'

'MAI'R ateb mor glir â crystal,' atebodd y wraig. 'Pam na fasat ti wedi eu pacio nhw dy hun?'

Oni bai fod samaritan MYFYRgar ar ei ffordd i lawr y diwrnod canlynol mi fyddai'r gwron wedi gorfod bodloni ar un crys am benwythnos.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Alice a'r plant - Mair, Emyr a Rhiannon a theulu'r diweddar Gwilym Searell Jones, ddatgan eu gwerthfawrogiad llwyr am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl a hoffus. Diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, y llythyrau, y galwadau ffôn ac am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Llanberis (£500).

Diolch i'r Parch John Pritchard, y Parch Trefor Lewis, y Parch

Gwynfa Roberts, y Parch Richard O Jones Melin-Y-Wig, a Mr Gareth Jones - Yr organydd am eu gwasanaeth. Diolch hefyd i staff Meddygfa Llanberis a staff Ward Peris, Ysbyty Eryri am eu gofal tyner. Diolch hefyd i'r Bistro, Llanberis ac i Mr Gwynfor Jones - E.W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr. Diolch i bawb.

GYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf fel pentref i Mrs Alice Searell Jones a'r teulu ar eu profedigaeth ddiweddar.

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Gwylwch allan am y Chwilen hon y mis hwn!



Iesgob Dafydd! mae angan i'r darllenwyr fy nghynorthwyo'n enbyd y mis hwn! Yr enw a roir mewn Geiriaduron Cymraeg ar y chwilen uchod yw *Chwilen y Bwm* - *Melolontha melolontha*. Nid oeddwn, yn fy niffyg gwybodaeth, yn gw'bod am ei bodolaeth hyd nes i mi, ar ddamwain, daro ar gorff marw oedolyn un o'i thylwyth ar ochr y dreif ger Neuadd Glasgoed, drws nesa i'r cae silwair, a hynny yn ystod yr ail wsnos ym mis Mai llynedd. A dyna fynd ati i drin y corff, a'i ddanfôn mewn blwch bychan arbennig, sef Arch Bost arbennig at Arbenigwr Pryfetach. Maddeued pobol glen y llythyrdy yn Llanrug imi am y fath hyfdra!

Mymryn o ffeithiau am y Chwilen dan sylw. Mae'n hedfan o gwmpas wedi iddi dywyllu ym misoedd Mai-Mehefin. Gwna sŵn chwyrlïo. Perthyn liwiau hynod brydferth iddi - mae ei phen a'i thoracs yn ddu bitsh a blew llwydion yn tyfu ohonynt. Mac gweddill ei chorff yn union fel petae wedi'i losgi yn yr haul!

Mae larfa, sef un bychan y chwilen, yn byw yn y pridd am

oddeutu tair neu bedair mlynedd. Daw'r oedolyn i'r fei yn ystod yr hydref ac yna mae'n dychwelyd dan y pridd hyd fis Mai y flwyddyn ganlynol. Yn ystod yr adeg tanddaearol bydd y larfa'n bwyta gwreiddiau planhigion, gan achosi difrod. Ond bydd brain, gwyllanod, drudwenod a thyrchod daear yn difa nifer ohonynt. Mae'r oedolion, pan yn hedfan o amgylch, yn fwyd i ystlumod a thylluanod y nos.

Rwan ta, beth yw fy mhroblem ynghylch y chwilen? Yn syml, yr enw cywir arni!

Yr hyn a godais yn ei grynsyth o'r llyfryn gan W. Meredith Morris, sef *A Glossary of the Dementian Dialect* (1910) t.327 yw *chwilen bwmp* - *chwrli bwmp* yn Arfon, *whilen y bomp* yn Nyfed. Y mae'r Parchedig D. G. Williams yn *Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, 1895* t.345 yn crybwyll bod plant yn arfer dweud wrth y chwilen - *Poera dy wa'd (waed), poera dy wa'd, neu mi ladda' dy fam a dy dad*. Byddent wedyn yn poeri ar y chwilen, a hithau wedyn yn poeri hylif'run ffunud â gwaed. A dyma lun arall - y Chwilen Bwm?



Ia! Ond nid yr un ydyw! Cywir! Y *Timarcha tenebricosa*, a'r *Chwilen Drwyn-Waedlyd* yw hon! Nid yw hi'n hedfan ac araf ydyw ran symudiad. Bydd hon, o'i chynhyrfu, yn arllwys gwaed o'i chorff. Nid yw'r Chwilen Bwm yn poeri gwaed. Pa un sydd iawn o ran enw tybed? A ydyw Eco'r Wyddfa yn tynnu sylw at wall sy'n bodoli ers cannoedd o flynyddoedd? Beth feddyliwch chi?

CYSTADLEUAETH!! CYFLE I ENNILL £50!

Y dasg: darlun, ffotograff neu frodwaith yn addas ar gyfer Cerdyn Nadolig Gŵyl Ffair Nant 2003.

Nid oes rhaid i'r llun fod yn 'Nadoligaidd' - dim ond ei fod yn dangos agwedd o Nant Peris a'r ardal gyfagos.

Dyddiad cau: **Diwedd Mehefin**
Rhif Ffôn:
Gwenda Roberts: 872177.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

STEPHEN JONES

+ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

GWRAIG Y Tŷ YN YR ARDD

Dyna'r Pasg drosodd unwaith eto a'r garddwyr yn torchi eu llewys. Y dynion yn plannu tatws er mwyn cael tatws newydd ond bydd llawer yn mynd ati yn gynharach er mwyn cael bod o flaen pawb arall yn cael pryd o datws newydd.

Amdani rwan er mwyn cael mwynhau mis Mai. Mae'r cwpled yma gen i fel tiwn gron bob blwyddyn:

Mynnwn pe'r nef â'i mynnai
Mai'r deuddeng mis fai mis Mai.

Mae mis Mawrth eleni wedi bod yn eithriadol o gynnes a ffafriol i fynd ati yn gynharach, ond fel y ffermwyr sy'n dweud fod eisau glaw gan na fydd dim yn tyfu, felly hefyd y garddwyr. Ond mae un peth yn dda, does dim eisau torri'r lawnt mor aml.

Ond mae'n braf cofio'r Pasg yn y dau ddegau, rhywbeth yn debyg ond fod yna fwy o arddio a chael bwyd o'r ardd yn hytrach na'r bwydydd parod a geir heddiw.

Beth arall a fyddem yn wneud dros yr Ŵyl ar wahân i groesawu teuluoedd adref? Dydd Gwener y Grogolith byddai cyngerdd cysegredig yng Nghapel Tanycoed. Beth meddech chi oedd yn wahanol? Cyngerdd o fawl, adroddwyr o fri a chaneuon sylweddol, dim canu pop fel sydd heddiw. Diwrnod crefyddol i gofio'r croeshoeliad ydi'r Grogolith.

Yna'r Sul byddai cyfarfodydd pregethu yn y capeli. Tair pregeth a dau bregethwr a chymundeb.

Yna dydd Llun byddai cyfle i ymlacio a mwynhau cin hunain.

Y diddordeb mwyaf i mi oedd cael mynd i'r dre i weld perfformiadau o ddramâu gan gwmni'r Ddraig Goch yn yr hen bafiliwn mawr ers talwm. Gwynfor oedd cynhyrchydd y cwmni. Daeth yn un o brif ffeiriadaid yr Eisteddfod Genedlaethol, er na chwasa erioed fynd i Goleg Drama. Cofiaf ddau berfformiad, un yn y prynhawn ac un arall yn hwyrach. Y ddrama fawr a gofiaf i oedd 'Beddau'r Proffwydi' gan W. J. Gruffydd. A dyna fy Mhasg i yn 192-?

Y Dewraf

CANMLWYDDIANT

Ar yr ail ar bymtheg o Ebrill 1903 y ganwyd un o nofelwyr amlycaf ein cenedl - T. Rowland Hughes. Dathlwyd y canmlwyddiant gyda rhaglen swmpus ar Radio Cymru ddydd Gwener y Grogolith a nos Sul y Pasg.

Ganwyd T. Rowland Hughes yn 20, Stryd Goodman Llanberis, ond symudodd y teulu i Angorfa, Stryd y Ffynnon. Hwn fu cartref William a Mary Hughes, Euronwy a Tomi am flynyddoedd. Hwn oedd tŷ John Davies yn y nofel *O Law i Law*. Bachgen swil ac eiddil yr olwg ydoedd yn ystod ei ddyddiau cynnar. Nid oedd ynddo ddawn addysgol arbennig ychwaith, ond mewn amser cafodd ei ddylanwadu gan ei Weinidog Y Parch. A. J. George; R. E. Jones (Cyngar) a Robert Morris, a ddysgai Saesneg iddo yn Ysgol Brynrefail. O Ysgol Brynrefail aeth i Goleg y Brifysgol Bangor. Yno y datblygodd i fod yn fyfyrwr academiaidd o'r radd flaenaf ac ar ddechrau ei flwyddyn olaf yn y coleg cafodd ei ethol yn Llywydd y Myfyrwyr. Tipyn o gamp i hogyn bach swil o Lanberis.

Aeth i Aberdâr fel athro Cymraeg a Saesneg - ond nid oedd dysgu plant wrth fodd ei galon. Yno y derbyniodd ysgoloriaeth i facs ymchwil yng Ngholeg yr Iesu Rhydychen. Oherwydd snobyddiaeth y myfyrwyr yn y fan honno fe drodd yn erbyn y lle gan awchu am gael dod yn ôl i Gymru. Ond tra mewn cyfarfod yng

Nghymdeithas Dafydd ap Gwilym fe gyfarfu ac Eirene Williams o Gwm Ogwr. Bu'r cyfarfod yn ffrwythlon a'r bartneriaeth yn barhaol. Priodwyd hwy yn 1933 yng Nghwm Ogwr gan Y Parch A. J. George.

Symudodd y ddau ar ôl gorffen eu cwrs yn Rhydychen a derbyniodd Rowland swydd darlithydd yng ngholeg yr ail gynnig yn Harlech. Er fod y ddau wedi gwirioni â bywyd y coleg a'r ardal daeth iddynt awydd symud eto. I Lundain y tro hwn. Derbyniodd swydd Warden y Mary Ward Settlement yn y brif ddinas. Roedd y swydd hon wrth fodd calon y ddau gan eu bod yng nghanol gweithgareddau celfyddydol a diwyllianol Prydeinig. Ond buan y trodd y lle yn hunlle. Gweinyddwr ydoedd a chan fod dros dair mil o fyfyrwyr yn mynychu'r lle - dacth y gwaith yn drwm ac ni chât amser i ysgrifennu. Casâi Eirene y lle.

Ar ôl blwyddyn dychwelodd y ddau i Gaerdydd a derbyniodd Rowland swydd yn y B.B.C. Bu'r gwaith hwn yn bleser llwyr iddo. Apwyntiwyd ef yn gynhyrchydd rhaglenni nodwedd a drama.

Gwelwyd arwyddion cyntaf ei afiechyd cynamserol



T. Rowland Hughes yn fachgen bach.

ychydig cyn Nadolig 1937. Cadarnhawyd, ar ôl sawl prawf meddygol, fod 'multiple sclerosis' arno. Dirywio yn raddol fu ei hanes wedyn gan ymneilltuo i'r gongl. Ond o'r 'gongl' yma y digwyddodd rhywbeth na ellir ei ddisgrifio ond fel gwyrth lenyddol.

Ac yntau'n gorfforol ddiymadferth ond yn feddyliol effro, a thrwy berswâd ci wraig, fe gychwynnodd ysgrifennu'r nofelau. Pump ohonynt! *O Law i Law* yn 1943; *William Jones* yn 1944; *Yr Ogof* yn 1945; *Chwalfa* yn 1946 a *Y Cychwyn* yn 1947. Galwodd Yr Athro Bobi Jones hwy 'y pum pwdin Dolig', gan iddynt ymddangos ychydig cyn y Nadolig bob blwyddyn. Ond yn eironig *Y Cychwyn* fyddai'r diwedd hefyd. Bu

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

MARWOLAETH. Ar 22 Mawrth bu farw Mair Roberts, 4 Caeathro Bach yn 81 oed. Roedd hi'n un o deulu'r 'Post'. Cydymdeimlwn â'i dwy chwaer a'r teulu i gyd.

BEDYDDIO. Unwaith eto, bedyddiwyd tri o blant Caeathro yn yr un gwasanaeth. Ar ddydd Sul, 6 Ebrill cynhaliodd y Parch Marcus Robinson y gwasanaeth i gapel llawn. Y plant oedd Shannon Mai (merch i Sharon a Jason) a Katie Ann a Ceris Haf (merched i Jayne a Tim).

TYNFA MISOL. Yr enillwyr ar gyfer mis Ebrill oedd:

£40: (93) Rosie Lloyd, 2 Caeathro Bach; £25: (85) Owie Williams, 19 Tai Glangwna; £15: (100) Willy Anderson, Tafarn Bryn Gwna; £5: (71) Clive James, Hafan.

GENEDIGAETHAU. Croeso i Eleri, a anwyd i Gareth a Jan Jones, Tŷ Gwyn ar 17 Ebrill, chwaer i Lowri.

HELFA WYAU PASG. Diolch i Llyr Roberts roedd yr Helfa Wyau Pasg ar gyfer plant ysgol gynradd neu iau yng ngardd Penrhos eleni, gyda lluniaueth ysgafn wedyn. Trwy gefnogaeth hap-chwaraewyr y Tynfa Misol bu'n bosib prynu wyau i 55 o blant!

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr ar nos Iau, 17 Ebrill yn Y Ganolfan, Waunfawr. Roedd y Cyngorwyr Clive James a Vera Roberts yn bresennol.

Unwaith eto nid oedd Cyngor Gwynedd wedi gweithredu ar unrhyw un o'r materion ers mis Mawrth. Roedd siom fawr ynglŷn ag agwedd Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd tuag at ganiatâd ffarm abwyd, mynedfa newydd, dau dwnnel poli, tanc dŵr, paneli haul a generadur gwynt ar safle hen ystyby Pan y Cefn. Roedd swyddogion y Cyngor wedi caniatáu'r cais cyn i'r Cyngor Cymuned ei drafod. Y prif bryder oedd yr amod i beidio gorfod gwella mynediad o'r A4065 ar leoliad peryglus y tu mewn i ddwy flynedd ar ôl cwblhau. Hefyd bydd y Cyngor Cymuned yn awyngwyl swyddogol i Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Bydd y gwasanaethau canlynol dros y mis nesaf:

4 Mai: 10.00 Parch John Huw Hughes.
11.00 Ysgol Sul.

11 Mai: 11.00 Ysgol Sul.

18 Mai: 10.00 Gwasanaeth Teuluol a phaned wedyn, efo Dafydd Iwan;

25 Mai: Dim gwasanaethau.

1 Meh: Dim gwasanaeth.

8 Meh: 11.00 Ysgol Sul;

2.00 Parch Harri Parri.

CLWB Y MERCHED.

Croesawodd Marian Huws, Cadeirydd y Clwb, y nifer helaeth o aelodau a ddaeth ynghyd fis Mawrth i fwynhau noson artistig yng nghwmni Mrs June Baglin o Drefor. Dangosodd ei dawn arbennig ar sut i drefnu blodau a'r thema a ddewisodd oedd *Mother's Day, Spring is in the Air, Easter Bonnet a The Old Rugged Cross*. Cafodd y blodau eu cynnig ar raffl ac enillwyd hwy gan Mair Jones, Jill Thomas, Nan Huws-Roberts, Dorris Mulhenfeld, Letty Williams, Betty Roberts a Norma Evans.

Diolchodd Dilys Griffiths yn gynnes i Mrs Baglin am noson mor ddiddorol. Helen Jones a Dilys Griffiths oedd yn gyfrifol am y te a'r bisgedi.

Bydd cyfarfod mis Ebrill yn cael ei gynnal ar ffurf Dawns Llinell. Croeso i hen aelodau ac aelodau newydd yn ogystal â ffrindiau.

NOSON O ADLONANT. Menter gyntaf Pwyllgor Godi Arian Canolfan y Capel am eleni oedd trefnu noson o adloniant lleol yng Nghanolfan y Capel. Daeth cynulleidfia lu i'r noson a chafwyd gwledd o adloniant gan Gôr Waunfawr, Dafydd Iwan, Norman Wisdom, Dylan a Neil, Gwyn Williams, Lliwen Gruffydd a Rhian Roberts.

Fel canlyniad bu elw o £500 ar gyfer talu'r dyledion sydd gennym. Diolch i bawb am eu cyfraniadau unigol. (Gweler y lluniau)



Norman Wisdom!

Noson o Adloniant



Dafydd Iwan



Neil



Dylan



Côr Waunfawr

DATGANIAD I'R WASG

Chwarae Teg i Bawb

Ydych chi wedi cael cam? Ydych chi am gyngor neu eisiau cwyno? Dyma'r cyfle!

Mae'r bedwaredd gyfres o'r rhaglen boblogaidd *'Chwarae Teg'* yn ei hól ar BBC Radio Cymru ac mae'r tîm yn ei le yn barod i weithio ar eich rhan.

Mae'r gyfres, sydd yn ymladd achos y defnyddiwr, yn parhau i gymryd achosion o annhegwch a thwyll a'u hymldd dros y defnyddiwr ac mae'r gyfres nesaf yn gobeithio gweld mwy o lwyddiannau.

Yn ystod y gyfres ddiwethaf, llwyddodd y tîm i helpu llawer iawn o bobl, gan gynnwys cael oergell newydd i Anna Williams a thledeu newydd i Caroll Hughes. Llwyddiant arall oedd medru arbed cannoedd o bunnau ym mil trydan aelodau capel yn Y Bala.

Ar hyn o bryd, mae'r tîm wrthi'n ceisio datrys amrywiol bethau ar gyfer y gyfres newydd. Hefyd maent yn gobeithio clywed gan wrandawyr Radio Cymru am unrhyw broblem neu gam maent yn eu dioddef er mwyn eu helpu.

Allwn ni eich helpu? Cysylltwch â ni ar unwaith! Os oes unrhyw un yn chwarae'n frwnt, mynnwch chi *Chwarae Teg*.

Os ydych chi yn crefu chwarae teg, anfonwch e-bost at chwaraeteg@bbc.co.uk neu ffonio'r peiriant ateb 24 awr ar 02920 576666.

Mae croeso i chi ysgrifennu atom hefyd. Ein cyfeiriad yw: Chwarae Teg, Radio Cymru, BBC, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YQ.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Er cof am y diweddar Jac Foulkes a hunodd Sadwrn y Pasg 2003

Llund eglwys, fab Llandegla,
Yn gytun, i ddwyn dyn da
I gymod â'i wir gymar

Y ddau'n gu, y deuddyn gwâr.
Er colyn aelwyd unig,
Yn ei Dduw, ni ddaliai ddig.

O'r Rafn, drwy fyd yr ofnau
Yn ddi-stŵr bu'r gŵr yn gwau.
Yn gynnar, cofiai gyni,
Ond iddo fo, bro mewn bri.
Caed nerth o barchu gwerthoedd,
Yno'r gwir a'i roi ar goedd
Yn brawf, drwy y dyddiau brau
Fe gariodd gof y gwreiddiau.

Yn ei dŷ, brenin o dad,
Di-guro led ei gariad,
Trwy ei lan, bu'n troi ei law
A'i hestyn mewn ffordd ddistaw.
Yn ei roi, âi hwn ar rêd,
Comiwnydd mewn cymuned.
Yn y gwaith, ymdrechai'r gwas
A'i harddel gydag urddas.

I'n hardal; daeth yr alwad
Ar fis gŵyl, i faes y gad.
Galw wnaeth un gaeth i gur,
Un distaw yn ei dostur.
I'n tir eto daw'r hiraeth
Am hen ffrind, ac am un ffraeth.

R.L.J.

DIOLCH. Dymuna Mary Evans, Swyn Eryri ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y dymuniadau da, y cardiau a'r blodau, y galwadau ffon a'r ymweliadau yn ystod ei llawdriniaeth ddiweddar.

CYDYMDEIMLO. Ddydd Sadwrn, 19 Ebrill yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Jack Foulkes, Tan y Cae. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR. Yn dilyn canu Cân y Mudiad, croesawyd pawb i gyfarfod mis Ebrill gan y Llywydd, Beti Owen, a diolchodd i'r deuddog aelod a fu'n cynrychioli'r Gangen yn y Cwile Canadlaethol yng Ngwesty'r Victoria. Derbyniwyd gwahoddiad Gangen Llanrug i ymuno â nhw y mis nesaf mewn

noson Hybu Cig Cymru. Llongyfarchwyd y Llywydd, Beti Owen, gan yr Ysgrifennydd, ar ddod yn Nain i Eleri Cernyw, merch fach Meinir.

Y gŵr gwâdd oedd y Parchedig Gareth Maelor a'i destun oedd 'Pinocio'. Wrth gychwyn ei sgwrs dyfynodd linellau o'r *Hogyn Pren* gan I. D. Hooson, ac yna aeth i sôn am ddyddiau ei blentyndod yn Stiniog. Cafwyd hanes nifer o bobl gyffredin ganddo, pob un yn wahanol, a phob un wedi gwneud bywyd, dros gyfnod o amser, yn ddiddorol – pobl fel Pinocio, yn wahanol.

Diolchwyd iddo ar ran y Gangen gan Anita Owen, ac enillydd y raffl oedd Glenys Griffith. Yng Nglynllifon y bydd y cyfarfod y mis nesaf a phawb i gyfarfod yn y Maes Parcio am 7.30.

CLWB 100 Y NEUADD. Enillwyd lonawr oedd Rhian Hughes, Erddig: £50; Margaret Hughes, 6 Bro Rhos: £25; Medwen Green, Corra Linn: £10.

Aelodau lwcus mis Chwefror oedd Evan Owen, Wern Las: £50; Helen Morris, 29 Bro Eglwys: £25; Collwyn Williams, 4 Tan y Cae: £10.

Enillwyd mis Mawrth oedd Mrs E. J. Jones, 7 V Ddôl: £50; Mrs Sheila Roberts, Tan y Buarth: £25; Mrs K. Hughes, Coed Belyn Lodge: £10.

ac enillwyd Ebrill oedd: Mrs Ann Stuhlfelder, 21 Y Ddôl: £50; Gwyndaf a Sandra Jones, Tŷ Gwyn: £25; John Owen, Gefn Cynrig: £10. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

DYMUNIADAU GORAU i Mr Goronwy Jones, Tan y Cae sydd wedi bod yn wael yn Ysbyty Gwynedd. Dymuniadau gorau am wellhad buan iddo.

BWRWR SUL YNG NGHOLEG Y BALA. Bu wyth o aelodau Ysgol Sul y Cysegr yn bwrw'r Sul yng Ngholeg y Bala rhwng 26 a 28 Ebrill. Ceir yr hanes yn rhifyn nesaf yr Eco.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870202

ADREF O'R YSBYTY. Yr wyf yn sicr ein bod fel ardal yn falch o ddeall fod Mr Reginald Faulkener, Fron Dirion wedi cael dda adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl derbyn triniaeth. Gobeithio ei fod yn gwella o ddydd i ddydd ac y cawn ei weld allan yn reit fuan. Hefyd llongyfarchiadau iddo ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed.

DIOLCH. Carwn ddiolch o galon i swyddogion Ymddiriedolaeth Ysbyty Gwynedd, a hefyd i swyddogion Gwasanaeth Gwirfoddol y Merched am i mi dderbyn medal hardd i ddathlu ugain mlynedd o wasanaeth i'r mudiad. Gefais andros o fraw ar nos Fawrth, 25 Chwefror pan fu imi dderbyn y fedal, gan nad oeddwn yn gwybod dim am y peth. Yr wyf yn ei deimlo yn anhrydded o'r mwyaf.

Diolch i Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth am ei eiriau caredig, geiriau nad â'n angof byth ac hefyd am y fasged fawr o flodau a dderbyniais. Diolch i'm ffrindiau am y llu cardiau a'r

galwadau ffôn a dderbyniais.

Yn ystod y flwyddyn olaf bu i'r mudiad drosglwyddo £240,000 i'r Ysbyty. Swm anrhydeddus iawn. Diolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd a gobeithio y câf north ac iechyd i gario ymlaen hefo'r gwaith.

CLWB DRWIG. John Cantrell oedd yn diddanu yr aelodau yn y clwb ar 27 Mawrth. Bu'n dangos lluniau o fynyddoedd Awstria a gogledd yr Eidal, lle mae ef ei hun yn ymwelydd cyson, a rhoddodd inni beth o hanes y wlad. Diolchwyd iddo gan Ray Bower. Cyflwynwyd teisen ar gyfer pen-blwydd Reg Faulkener yn 80 oed ond nid oedd yno gan ei fod yn cwyno. Un arall oedd yn absennol i ddathlu ei ben-blwydd oedd Terry Taylor.

Dewiswyd John Cantrell, Terry Taylor, Margaret Faulkener a Morfudd Jones i gynrychioli'r clwb yng Nghwis 'Age Concern' Gwynedd a Môn.

Mae'r darpariadau ar gyfer codi cofeb i'r chwarelwyr yng

RYGARUG

Rygarugasorws

Gan fod Anti Haf wedi bod braidd yn flêr ac wedi methu dal yr Eco cyn iddo fynd i'w wely y mis diwethaf, dyma ddwy stori am Rygarugasorws, y deinosaurs sy'n llechu tua chastell Bryn Bras, i chi y mis hwn. Mwynhewch!

Rygarugasorws am ymuno â Chôr Eryri!

O na! Mae Rygarugasorws wedi dod yn ôl am yr eildro y flwyddyn hon i bentref bach Llanrug. Fe'i gwelwyd yn camu allan o'r llyn wrth ochr Castell Bryn Bras. O diar! Mae o ar ei ffordd i Gapel y Rhos. Yn ôl pob sôn mae o ar lwgu. Mae am fynd i chwilio am damaid blasus i'w fwyta yn ymarfer 'Côr Eryri' Anti Siân yng Nghapel y Rhos. Mae'n gwtio i mewn drwy ddrws y festri. Sgrechiodd Anti Siân dros y lle a gwaeddodd, 'Mawredd mawr! Deinosaurs byw!' Llewygodd Anti Awen. Cuddiodd Anti Haf tu ôl i'r biano. Rheddodd Anti Mannon nerth ei thraed i chwilio am help. Chwilota am gantorion gwael i swper oedd Rygarugasorws. 'Arhoswch funud Rygaruga,' meddai Anti Siân, 'does dim cantorion gwael yn ein côr ni!' Dechreuodd y côr ganu 'Cwrw Da'. Gwnaeth Rygarugasorws ei orau glas i ganu 'Cwrw Da' ond yr unig beth a ddaeth allan o'i geg oedd 'O da da da!!' 'Does dim lle i ddeinosaurs sy'n methu canu yn ein côr ni,' meddai Anti Siân, 'felly ffwrdd â chdi!' Aeth y Deinosaurs llwglyd yn ôl am y castell. Suddodd i mewn i'r llyn a'i fol yn wag.

Rygarugasorws yn yr ymarfer pêl-droed

Nos Lun oer oedd hi ac roedd Iwan yn dysgu pêl-droed i flwyddyn tri ac yn gwneud iddynt redeg o un ochor i'r cae i'r llall ar gae pob tywydd Ysgol Brynrefail. Roedd y plant wrthi'n rhedeg yn y canol pan neidiodd Rygarugasorws i mewn i'r cae dros y ffens. 'Hei, beth wyt ti'n dda yma yr hen fwystfil herllyd hyl?' gofynnodd Rhodri Gruffudd yn ddewr. Baglodd Dyfan dros y bêl gan ei fod wedi dychryn cymaint. Gwaeddodd Ffion Erin, 'Bobol y Bala bach!' Rheddodd Yncl Len adref. Roedd y plant i gyd wedi dychryn yn arw, a phawb yn swatio yn un criw gyda'i gilydd yng nghornel y cae. Gwaeddodd Iwan, 'Peidiwch â chynhyrfu blantos, mi rydw i yn FWY na fo.' Ac yna, gan droi at Rygarugasorws meddai, 'Be wyt ti'n da yn ein ymarfer pêl-droed ni Rygaruga?' 'Meddwl roeddwn i,' atebodd Rygarugasorws. 'y byddwn yn cael y plant sâl am chwarae pêl-droed i swper gan fy mod i ar lwgu.' 'PLANT SÂL AM CHWARAE PÊL DROED?!' meddai Iwan mewn braw a syndod, 'ond does dim plant yn chwarae pêl-droed sâl ym flwyddyn TRI! Mae'r rhain yn well na Beckam, Giggs a Michael Owen hefo'i gilydd! Maen nhw wedi chwalu holl dimau'r ardal yn racs!' 'HWRE!!!' gwaeddodd y plant i gyd, a chan eu bod wedi gwneud cymaint o swm, neidiodd Rygarugasorws yn ôl dros y ffens mewn braw, a'i baglu hi am adref i'r llyn. Wedi gorffen ymarfer eu sgiliau pêl-droed i gyd, aeth Iwan a'r plant i gyd adref hefyd, i ddweud yr hanes cyffrous am ymweliad Rygarugasorws â'r ymarfer!

Digwyddiadau Rygarug

Mai 5: Côr a Dawnsywyr Rygarug yn cymryd rhan yng Ngŵyl Fai Antur Waunfawr o 1.00 o'r gloch ymlaen;

Mai 7: TNT yn Ysgol Gynradd Llanrug am 7 o'r gloch, mynediad £2;

Mai 14: Bingo yn Ysgol G y m u n e d Penisarwaun am 6.30 o'r gloch;

Mai 15: Dawnsywyr Deiniolen a Disgo yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00 o'r gloch

Mai 21: Cyfarfod Blynnyddol Agored a Fideo Digon Teg! am 7.00 o'r gloch yn Ysgol Gynradd Llanrug;

Mai 22: Fideo Digon Teg! yn Nhŷ Elidir, Deiniolen am 6.30 o'r gloch.

Nghylechfan Allt Ddu yn mynd ymlaen yn hwylus.

Bwriedir gwneud trefniadau i gasglu ar gyfer Nyrsus Macmillan yn y cyfarfod nesaf. Diolchwyd i John a Rose Cantrell am ddarparu'r te ac am y raffl a enillwyd gan Katie Ll. Hughes a Kathleen Davies.

Yn y cyfarfod ar 10 Ebrill daeth Mr Phil Watson, Swyddog Cymorth i Gleifion i amlinellu rhan y gwasanaeth mewn cynnig cymorth, nid yn unig i gleifion ond hefyd i'w teuluoedd a'u gofialwyr. Ers dechrau'r gwasanaeth rhoddwyd cymorth i 94 o alwadau a dderbyniwyd a'r galwadau hynny'n dod yn bennaf oddi wrth yr henoed, er bod y gwasanaeth wedi ei fwriadu ar gyfer pob oed yn y gymdeithas. Rhoddwyd sylw gan Mr Watson i nifer o broblemau a leisiwyd gan y gwrandawyr. Diolchwyd iddo gan John Cantrell.

Rhoddwyd y te gan Morfudd Jones a Nellie W. Jones. Enillwyd y raffl oedd Margaret Faulkener a John Brennan.

Cafwyd manylion am raglenni'r wythnosau sydd i ddod a bu trafodaeth ar y gwasanaeth bwsiau yn Ninorwig.

o'n Hawduron

GENI T. ROWLAND HUGHES



'Angorfa', Llanberis, gyda Seion, Capel y Bedyddwyr, wrth ei dalcen.

farw ar 24 Hydref 1949 ac yntau ond yn chwech a deugain oed. Rhoddwyd ef i orffwys ym mynwent Cathays Caerdydd.

Derbyniwyd cyfraniadau gan sawl un o'r fro yn y rhaglen deyrnged, gan gynnwys Mr. Llew Hughes, Cwm y Glo gynt a Mrs. Dilys Baylis a gofiai'r bardd a'r llenor. Cafwyd braslun o Lanberis ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf gan Dr Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa Lechi yn y Gilfach Ddu. Canodd plant Ysgol Dolbadarn 'Llan y Dŵr'. Cafwyd darlleniadau a

deialogau gan Maureen Rhys a John Ogwen a bu Dr. John Rowlands yn pwysu a mesur cyfraniad mawr T. Rowland Hughes i lenyddiaeth ein cenedl.

Roedd tri gŵr yn flaenllaw yn y cynhyrchiad: Emlyn Davies, cyfarwyddwr Cwmni Teledu Elidir a chyn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail; Gwyndaf Roberts, 'Ar Log', y cynhyrchydd, ei dad yntau yn gyn ddisgybl o'r un ysgol ac Arwel Jones, lluniwr y sgript a'r cyflwynydd, yntau hefyd yn gyn ddisgybl o Ysgol Brynrefail.



T. Rowland Hughes yn Llywydd y Myfyrwyr, Coleg y Brifysgol, Bangor, 1925 - 1926.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU GARTREF A THRAMOR

Cwmni tauluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwylliau oll-gynhwysol

GWYN JONES


FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

Cyngor Cymuned Llanberis

Cofnodion cyfarfod rheolaidd a gynhaliwyd ar nos Iau, yr 20fed o Fawrth 2003, yn 'Angorfa', Llanberis am 7 o'r gloch.

Croesawyd y Cynghorydd Alun Ffred Jones i annerch y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r etholiadau ym mis Mai. Cafwyd trafodaeth drylwyr ganddo ar agweddau'r Cynulliad a'r Cyngor Sir. Mynegwyd sawl cwyn gan y Cynghorwyr ynglŷn â diffyg llais y Cyngor Cymuned wrth wrthwynebu ceisiadau cynllunio ac am ddefnyddiau adeiladau anaddas mewn pentref gwledig. Awgrymodd Mr Jones y byddai'n syniad estyn gwahoddiad i Mr Dafydd Iwan ddod i gyfarfod y Cyngor er mwyn trafod swyddogaeth yr Adran Gynllunio.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei annerchiad.

Materion yn codi o'r cofnodion

Y blerwch ym Mharc Padarn. Dywedwyd fod y sbwriel yn parhau i fod yn broblem yn y parc ac mewn mannau o'r pentref. Bu'r Cyng Ken Jones mewn cyfarfod diweddar o 'Fforwm Padarn' a dywedodd fod cynllun newydd ar y gweill i daciuso'r pentref cyfan. Mynegwyd siom gan y Cynghorwyr nad oeddent yn ynwybodol o'r cynllun hwn nac o'r cyfarfod diweddar. Penderfynwyd gyrru llythyr at Gyngor Gwynedd i ofyn beth yn union yw'r cynllun ac os oes unrhyw ymgynghori i'w gynnal gyda'r pentrefwyr cyn ei gwcithredu.

Adran Prifffyrdd. Darllenodd y Cadeirydd lythyr a oedd yn ateb cwynion y Cyngor ynglŷn â chyflwr rhai o ffyrdd a llwybrau cyhoeddus yr ardal. Mynegodd y Cynghorwyr gryn anafodlonrwydd ynglŷn ag ymateb yr adran i'r ffaith fod nifer o fylchau yn y waliau ar ochr y ffordd o Nant Peris i Ben Y Pas. Dywed Cyngor Gwynedd mai cyfrifoldeb y perchennog tir yw atgyweirio'r waliau ond mae'n anodd derbyn yr ateb yma mewn lle cynnau fel Y

Wern, lle y bylchwyd y waliau gan ddamweiniau ceir a llifogydd.

Awgrymwyd yn y llythyr hefyd nad oes angen atgyweirio'r llwybr ger Craig Yr Undeb ond anghytunodd nifer o'r Cynghorwyr â hyn. Derbyniwyd rhagor o gwynion am gyflwr y llwybr yma a'i bod yn anodd iawn ei groesi oherwydd y llaid a'r baw gwartheg. Penderfynwyd gyrru llythyr arall at y Cyngor yn datgan anafodlonrwydd y Cynghorwyr ac i awgrymu y dylid neilltuo rhan o'r tir ar gyfer y llwybr drwy osod ffens neu bostiau.

Ceisiadau Cynllunio

Er gwybodaeth, cafodd y ceisiadau canlynol eu cymeradwyo:

Newid Siop yn dŷ, 59 Stryd Fawr, Llanberis.

Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

Newid defnydd o fodurdai i dri uned gwyliau i'r anabl / cynllun diwygiedig, 1 Stryd Fawr, Llanberis. Dim gwrthwynebiad er bod amheuan a oes digon o le parcio ar gyfer y cynllun.

Newid defnydd tŷ i ddau annedd, Gwel y Dŵr, Llanberis. Dim gwrthwynebiad.

Ceisiadau am drwyddedau i werthu alcohol:

(i) Bwyty Pete's Eats, Llanberis - dim gwrthwynebiad.

(ii) Dau gaffi Rheilffordd yr Wyddfa - dim gwrthwynebiad

Y Fynwent

Dywedodd y Cyng Derek Jones iddo fynd i'r fynwent, gyda aelod o gwmni JM Jones, Llanrug, er mwyn edrych ar y cerrig beddi a oedd wedi eu difrodi yn ystod y stormydd diweddar. Bydd y gwaith atgyweirio'n dechrau'n fuan.

Gwelwyd yn ddiweddar fod y tyrechod wedi diflannu o'r fynwent wedi i'r pla laddwr fod yno.

Esboniodd y clerc iddi gysylltu a thri chwmmi ynglŷn â gosod haen newydd o darmac ar lwybr y fynwent. Nid oedd wedi derbyn amcan brisiau am y

gwaith hyd yn hyn. Penderfynwyd gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf.

Llwybrau Cyhoeddus

Trafododd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn holi am brisiau i atgyweirio'r llwybr o Fur Mawr i Hafod Lydan. Cafodd ddau amcan bris ond cytunodd i chwilio am un pris arall cyn penderfynu'n derfynol.

Meinciau Cyhoeddus

Yn sgil y drafodaeth hon, hysbyswyd y Cyngor Cymuned fod y plac gwybodaeth (sy'n dangos enwau a hanes ffurfio'r mynyddoedd) wedi diflannu o'i safle ger Pen Llyn. Cytunwyd i gysylltu â Chyngor Cefn Gwlad i ofyn iddynt ailosod y plac.

Gohebiaeth

Llythyr yn gofyn am gynrychiolwyr o'r Cyngor i fynd i gyfarfod cyhoeddus i gyfarfod tîm dylunio Copa'r Wyddfa yng ngwesty'r Victoria, Llanberis ar y trydydd o Ebrill. Cytunodd y Cadeirydd a'r Cyng Ken Jones gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfod.

Unrhyw Fater Arall gyda chaniatad y Cadeirydd

Derbynwyd sawl cwyn ynglŷn â phobl yn gyrru'n wyllt drwy Nant Peris. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n syniad gofyn i Gyngor Gwynedd beintio arwyddion 30 mawr ar y ffordd i geisio arafu'r traffig.

Penderfynwyd gyrru llythyr at yr Heddlu i ofyn iddynt ddod i'r pentref i geisio dal y rhai sy'n gor-yrru yn hytrach na chylchu'r pentref wedi hanner nos pan mae'r ffordd yn dawel.

Dywedodd y Cynghorydd Fred Owen fod twmpath go fawr o sbwriel yn ymgasglu ger Tŷ Newydd, Clegir. Penderfynwyd hysbysu Cyngor Gwynedd o'r broblem.

Mynegodd y Cyng John Pritchard bryder fod y giatiau ger y goleuadau traffig, ar ffordd y Siop Goed, ar agor yn barhaol. Esboniodd eu bod wedi eu cloi ar un adeg a'i fod yn poeni fod eu cael ar agor fel hyn yn beryglus.

Penderfynwyd gyrru llythyr at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt drefnu i gloi'r giatiau.

Dywedodd y Clerc iddi gysylltu â'r Cynghorydd Sir, Trefor Edwards, ac y bydd yn dod i'r cyfarfod nesaf i drafod gweithgareddau Cyngor Gwynedd yn Llanberis.

Trefnodd y Cadeirydd i gynnal munud o dawelwch cyn diwedd y cyfarfod, er cof am Gwilym Searell Jones - aelod ffyddlon o'r Cyngor Cymuned am flynyddoedd lawer, a hunodd yn ddiweddar.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 yr hwyr.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwrthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glydl

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb:

Mawrth: £40: Mr Norman Williams, Llidiart Wen; £25: Mrs Gwenda Griffith, Trefeddyg; £10: Mrs Dilys Griffith, 14 Tref Eilian.

Ebrill: £40: Mr S. Wroe, Bryn Sirlol; £25: Mr Gareth Jones, Glyn Ceris; £10: Mr Wyre Thomas, Weirglodd Fawr.

BEDYDD. Fore Sul y Pasg, gyda'r Parch S.O. Hughes yn gweinyddu a Mrs Rhian Ellis wrth yr organ yng Nghapel Croesywaun, bedyddiwyd lolo Dafydd, mab bychan Karen a Dewi Morris, Bryn Celyn.

GENEDIGAETH. Longyfarchiadau i Eleri a Jason Anderson, Stad Glyn Afon ar enedigaeth eu mab bychan, Morgan Elis. Brawd bach i Jamie ac ŵyr i Evelyn Anderson, Stad Tŷ Hen.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mrs Eluned Coles, Stad Bro Waun; Mrs Grace Dawson, Bro Waun a Mrs Myra Turner. Collfryn adref wedi iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbity. Mawr hyderwn y byddwch yn gwella wedi cael dod adref.

Groeso adref hefyd i Mrs Hughes, mam Myra, wedi iddi dreulio cyfnod yng Nghartref Preswyl Maesincla.

Da gweld Rhyddian, Tan-y-coed wedi gwella ar ôl iddo dorri ei goes a Garwyn bach, Stad Tŷ Hen wedi cael tynnu'r plaster oddi ar ei fraich wedi iddo ddisgyn a'i thorri.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Gwladys Jones a Miss Katie Roberts, y ddwy o Stad Tref Eilian a'r ddwy ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri. Gobeithio yn wir y byddwch yn gwella.

Yr un yw ein dymuniad i Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau sydd wedi ei gymryd i Ysbyty Gwynedd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Gwion Davies, Bryn Eithin a'r Antur sydd wedi cael niwed i'w lygaid ac at Eira, Llwyn Celyn sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

DATHLU PEN-BLWYDD. Dymunwn ben-blwydd hapus i

Dilwyn Jones, 8 Ael y Bryn yn ddeunaw oed ac i Karen Parry, Bro Waun ar gyrraedd ei un ar hugain. Dymuna ffrindiau Mrs Margaret Jones, Arosfa hefyd anfon eu cofion cynhesaf ati ar ddatlu pen-blwydd go arbennig. DIOLCH. Dymunaf ddiolch i Swyddogion Capel Croesywaun am gael caniatâd i blygu rhifyn y mis diwethaf o'r Eco yn y festri ac i'r ffyddloniaid a ddaeth eto eleni i'w nôl a'i osod ac i wneud y gwaith plygu. Diolch o galon.

DIOLCH. Dymuna Myra Turner, Collfryn ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn, y blodau a'r caredigrwydd mae wedi ei dderbyn tra bu yn yr ysbity ac ar ôl dod adref.


DYMUNA Margaret, Sandra, Ella a theulu y diweddar William Elwyn Jones (Wil Beics), 'Arosfa', Waunfawr ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a'r geiriau o gysur a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli gŵr, tad, taid a ffrind annwyl iawn gan bawb.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Mr Mervyn Jones, Mrs Catherine Jones, Mrs Rhian Ellis ac i'r ymgymarwyr, E. W. Pritchard, Llanberis am eu trefniadau gofalus ac urddasol iawn. Derbyniwyd cyfraniadau er cof am Wil tuag at Tŷ Gobaith yng Nghymru. Casglwyd dwy fil o bunnau. Diolch o galon i bawb.

DYMUNO YN DDA. Fel y daw y rhifyn yma o'r Eco o'r wasgs bydd llawer iawn o'n pobl ifanc yn yr ysgol a'r colegau yn barod i sefyll yr arholiadau sy'n eu hwynebu. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch - gwnawch eich gorau.

YSGOL WAUNFAWR. Yn ystod yr hanner tymor bu pob dosbarth drwy'r ysgol ar ymweliad â mannau arbennig a oedd yn ymwneud â'u gwaith tymor.

Bu deg o ddisgyblion Bl.6 ar ymweliad ag Ysgol Brynrefail ar 19 Mawrth. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod ac mae'r disgyblion yn edrych ymlaen at gael dechrau yno ym mis Medi.



Plant yr ysgol yn mwynhau yn yr haul.

Aeth plant Adran y Babanod am drip i Gricieth ar 25 Mawrth. Gwelwyd y bad achub, y castell, y siopau a'r gwestai a chafodd pawb hufen ia i ddiweddu'r diwrnod.

Bu plant Bl. 3,4 a 5 ar ymweliad ag Oriel Môn a Beddrod Bryn Celli Ddu ar 3 Ebrill ac aeth Blwyddyn 6 ar ymweliad maes i'r Foryd ac i Ysgol Llandwrog.

Daeth Mr Twm Elias i sgwrsio â phlant Blwyddyn 6 am smyglo yn y ddeunawfed ganrif a buom ym mynwent Eglwys Llandwrog i weld y cistiau bedd lle'r arferai smyglywyr y cyfnod guddio'u hysbail.

Cynhaliwyd Noson TASAU i rieni Blwyddyn 5 a 6 ar 3 Ebrill a chafwyd Noson Gwis lwyddiannus yn nhafarn y pentref ar 4 Ebrill. Diolch i bawb a gefnogodd y noson. Casglwyd £300 a diolch arbennig i Huw Ynyr am drefnu'r noson.

Rydym fel ysgol yn casglu tocynnau Tesco a thocynnau creision Free Books for Schools - casglwyd digon ar gyfer cael teledu lliw i'r ysgol llynedd. Os oes rhai ohonoch yn y pentref yn derbyn rhai, efallai y buasech garediced â'u cyfrannu i'r ysgol. Diolchir i chwi am eich cydweithrediad.

DRAENOG

Dydw i heb glwad gan fy nghefnidar o Gynarfon ers peth amsar, ond yn ddiweddar bu'n cymowta o gwmpas swyddfeydd Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd ac mi anfonodd adroddiad reit gymysgelyd i mi a deud y gwir.

Sôn roedd o am gynllun i greu bowndarowt yn y cae gyferbyn ag ysgol Llanrug i helpu problemau traffic ar sgwâr post: ma hi'n berig bywyd i bobol a phlant bach yn fannau heb sôn am ddraenog. Ond dydi gneud lle saffach i bobol a phlant bach Llanrug - a phawb arall sy'n pasio trwadd - ddim yn preioriti gin y Cyngor os na cheith Y Dôm ei fuddio yn Llanberis.

Ac o sôn am Y Dôm - a

does neb arall wedi sôn amdano ers dechrau'r flwyddyn - tybad pam fod y lôn bcrig arall yn yr ardal 'ma; honno o jyneshon Llwyncoed i groeslon Tŷ Mawr wedi newid ei henw (wel, ei nymbar a bod yn berffaith gywir) yn ystod y misocdd dwythaf. Lôn B (am Beryglus?) 4547 o'dd hi ers blynnyddocdd. Erbyn hyn ma' hi'n A4244. Ypgredio ydi term yr Adran Prifffyrdd ar y newid. Ma' lôn wedi ei hypgredio o safon well, yn fwy tcybyg o gario traffic trwm, ac yn debygol o ga'i mwy o bres at ei chynnal a'i chadw. Ac os bydd Y Dôm yn ca'i ei fuddio, ar hyd y lôn yma y bydd y miloedd yn dwad bob dydd o'r A55.

Achos o roi'r drol o flaen y ceffyl d'wech? Ynta' ydi'r awdurdoda' yn gw'bod mwy na ni'r bobol gyffredin?

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tunnell
diggers bychain ac excavators 360° newydd
a llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300

neu (07775) 638620

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cyfarfu'r Cyngor ar nos fawrth y 1af o Ebrill. Llywyddwyd gan y Cadeirydd Richard Llwyd Jones ac ef offrymodd y weddi ddechreuol.

Derbyniwyd cofnodion Mawrth fel rhai cywir.

Materion o'r Cofnodion:

Gwnaed sylw o'r caniatâd cynllunio i **Ysbyty Fachwen**, danfonir cywiriad i'r Adran Gynllunio gan mai **Ysbyty'r Chwarel** y dylai fod.

Pôst Penisa'rwaun - Adroddodd y Cyngorydd Phyllis Ellis a'r Cyngorydd Pat Larsen eu bod wedi danfon llythrau i bob tŷ yn y pentref er ceisio parhâd i'r Swyddfa ond ni chafwyd yr un ymateb.

Defnyddio Gwastraff Llechi - Amlygodd y Cyngorydd Len Jones anfodlonrwydd i sylwadau Sue Essex. AC ynglŷn â hyn.

Gwaith Adran Priffyrdd Gwynedd -

Mynedfa Ystâd Y Rhôs, Bethel - dywedodd y Cyngorydd Huw P. Hughes bod gwaith ardddechog wedi ci gwblhau yno a bod lle i amryw o geir barcio yn ddiogel.

Adroddodd y Cyngorydd Len Jones hefyd bod nifer o drigolion Rhes Marian, Dciniolen wedi dangos eu gwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaed ar y llwybr cefn. Cyfeiriodd hefyd at y canlynol!

Mae gwella'r ffordd drwy Ddiorwig ar ei raglen fel aelod o Gyngor Gwynedd a hefyd y ffordd o ganol Deiniolen (E.B.) hyd at gyn safle Capel Ysgoldy. Cynllun Walio - yr anhawster yw cael y tirlfeddianwyr i gyfrannu.

Diogelwch y ffyrdd - Tir mewn perchnogaeth breifat sydd o flaen Tai Fictoria, y grêd yw bod y ceir sy'n parcio yn arafu trafnidiaeth.

Gwelliannau Deiniolen - mae mwy o Strydoedd o'r i'w gwneud yn y cynllun saith mlynedd ond 'dyw Tai Fictoria ddim yn gynwysiedig.

Cyflwynodd y Clerc y canlynol: Llythyr **Edison Energy** a'r wybodaeth bod perchnogaeth macs parcio Marchlyn Mawr wedi ei drosglwyddo i Gyngor Gwynedd.

Afon Goch, Deiniolen - Yn ôl 'Arolygaeth Safonau Gofal Cymru' nid oes cais wedi ei gysylltuo i gofrestru'r llc ar gyfer gofal plant. Ateb Adran Cynllunio Gwynedd oedd nad yw'r lle yn cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon. Ateb Adran Cyfreithiwr

Gwynedd, ni fydd côst ar Gapeli na Neuaddau Pentref pan fyddant yn ceisio am drwydded adloniant.

Gohebiaethau eraill:

CCBTC 'Adfywio Cymunedau Gwledig yng Nghymru'. Cynhelir rali ym Mae Caerdydd ar y 31ain Mai 2003, gofynnir hefyd am sylwadau Cymorth Cynllunio Cymru.

Penderfynwyd danfon copi o'r holiadur i bob aelod gan obeithio am ymateb i'r cyfarfod nesaf. Danfonir crynodeb i'r Gymdeithas.

Plismona - Cyfarfod cyhoeddus 'Deud dy ddeud', dydd Iau 17eg Ebrill yn Llyfrgell Dolgellau. Yn ôl y Cyngorydd Len Jones gwahoddwyd aelodau i wneud sylwadau yng nghyfarfod cyhoeddus diwethaf yr heddlu - beth ddaeth ohonynt?

Gosodir wyth o finiau bychain, gan Gyngor Gwynedd, ar bolion yn Nciniolen.

Cronfa Gwella Gwynedd ac Arian Loteri ar Gyfer Gwynedd. Penderfynwyd danfon yr adroddiadau i'r Grŵp Cymunedol erbyn eu cyfarfod ar y 9ed o Ebrill gan obeithio am ymateb i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Gwynedd daclus: Bwriad Gwynedd yw glanhau eu heiddo, fel waliau, arwyddion a.y.y.b. Cynigir hefyd gwasanaeth glanhau llochesi bysiau sy'n ciddo'r Cyngor. Nid oedd gwrthwynebiad.

Cynnal a chadw hawliau cyhoeddus - Cyflwynwyd adroddiad Gwynedd a'r cyfeiriad at gyfrifoldeb y Cyngor ynglŷn â llwybrau cyhoeddus.

Edison, Llanberis - Gwahoddiad i arddangosfa lluniau ayyb i ddathlu 20 mlynedd ers cwblhau'r gwaith. Danfonir enwau'r Cyngorwyr Huw P. Hughes, Mrs Pat Larsen a Richard Lloyd Jones i gynrychioli'r Cyngor.

Macs Parcio Gilfach Ddu, Llanberis. Dywedodd y Cyngorydd Gwilym Williams bod y tâl am barcio wedi ei godi i £2 a bod hyn yn effeithio ar fusnesau sy'n dibynnu ar ymwelwyr. Penderfynwyd cwyno i Adran Hamdden Cyngor Gwynedd.

Carffosiaeth Dinorwig: Dywedodd y Cyngorydd Len Jones bod ogleuon yn dod o'r uned dros y ffordd i Macs Eilian. Mae algae yn ffurfio ar Lyn Padarn. Penderfynwyd gofyn i Adran Tai Gwynedd a oes cysylltiad rhwng y ddau ac a yw'r uned yma'n gweithio'n iawn.

Cynllunio:

Caniatawyd gan Wynedd: Gwelliannau i Glasgoed Hall, Penisa'rwaun.

Ni fu gwrthwynebiad i'r un cais yn ystod y mis ond amlygwyd amodau Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â'r maluriwr yn Coed Bolyn Mawr, Bethel.

Gwnaeth y Cyngorydd Phyllis Ellis sylw ar y datblygiad yng Nghapel Glasgoed - Caniatawyd newid yr adeilad yn fflatiau rhyw 2 flynedd yn ôl ond mae'r gwaith a wneir ar hyn o bryd dipyn helaethach na muriau'r Capel. Penderfynwyd cyfeirio'r mater i Wynedd.

Llwybrau:

Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyngorydd Pat Larsen yn cyfeirio at yr angen i wella'r llwybr o gyfeiriad Bryn'refail at y llyn ym Mhenllyn, a'r angen i gynnal a chadw'r llwybr o Lôn Waun (Hendre) heibio i Ty'n 'Radd.

Penderfynwyd gofyn i Wynedd am bris gosod ramp ger y llyn a chynnwys (2) yn rhaglen torri gwair y Cyngor y gwanwyn yma.

Adroddodd y Cyngorydd Huw P. Hughes bod y ffordd o Tan Dinas i Pen Dinas mewn cyflwr drwg er ci bod yn lôn dosbarth 3. Penderfynwyd hysbysu'r Adran Priffyrdd. Llwybr Ffynnon Gegin Arthur. Cyflwynwyd llythyr Gwynedd i *Tilhill Economic Forestry*, perchnogion y tir, yn rhoi 3 wythnos iddynt i glirio'r dramwyfa.

Adroddiadau:

Y Grŵp Cymunedol. Bydd y Grŵp yn cyfarfod ar yr 2il o Ebrill.

Cyflwynwyd awgrym y Grŵp i'r Cyngor dalu am Fyrddau Gwyn Rhyngweithiol ar ran Cymdeithas Rhieni ac Athrawon y pcdair ysgol yn y gymuned. Y gôst fydd £3020 yr un, cyfanswm o £12 080.

Hysbysfwrdd Canolfan Neuadd Penisa'rwaun: Derbyniwyd pris o £345 am y bwrdd. Penderfynwyd ei archebu.

Llyfryn hanes y fro. Mae'r Grŵp yn dal i chwilio am rywun sy'n fodlon crynhoi yr holl wybodaeth sydd ar gael.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6ed o Fai 2003.

DRAENOG



Y Pwdin Reis Neis

Mae saga pwdin reis Gwesty Dolbadarn yn parhau - ac yn mynd o ddrwg i waeth. Paratowyd llond powlan fawr o'r pwdin rhyfeddol ar gyfer y gwesteion un penwythnos yn ystod y mis. Mae o mor boblogaidd fel na fedr y perchennog wneud digon ohono. Llowciwyd y cyfan mewn chwinciad. Pan ddaeth y gwesteion ola' at y bwrdd - doedd dim o'r gymysgedd blasus ar ôl. A phwy feddylicch chi oedd y gwestai ola? Mam y perchennog! Sut aeth yr 'Ambrosia' i lawr, Mrs Jones?



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwireiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PRIODAS RUDDDEM Estynnwn longyfarchiadau i Edfryn ac Ada Jones, Ty'n Twll ar ddatlu eu priodas ruddem ar Fawrth 30ain. Dymuna'r ddau ddiolch i'r teulu a ffrindiau oll am eu dymuniadau da a'u caredigrwydd ar yr achlysur.

PWYLLGOR CYMUNEDOL Cyfarfu'r Pwyllgor yn y Ffestri nos Fawrth, Ebrill 1af dan lywyddiaeth Mr Gwyn Hefin Jones. Hysbyswyd fod y cais am arian nawdd wedi ei anfon. Cyflwynwyd copi o'r ddogfen ddiwygiedig 'Gwahoddiad i dendro'. Wedi trafodaeth a gwerthfawrogiad o'r cynnwys, cynigwyd fod yr addasiad yn barod i'w gyflwyno pan ddaw'r arian nawdd i law. Yn y cyfamser bydd yr Is-Bwyllgor codi arian lleol yn cyfarfod i drefnu gweithgaredd ym mis Mehefin. Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ffestri nos Iau, Mehefin 5ed am 7 o'r gloch.

DIOLCH. Dymuna Eifion ac Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu a'u ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur eu priodas aur.

TEULU CYN-BRIFATHRO. Dros Wyl y Pasg ymwelwyd â'r pentref gan aelodau o deulu Prifathro cyntaf yr Ysgol Sir yma ym Mrynrefail, sef Mr John Rees Foster. Ef a benodwyd yn 1900 pan agorwyd yr ysgol a daliodd y swydd hyd y flwyddyn 1924. Tybed beth oedd eu teimladau wrth weld yr hen ysgol a'r adeilad erbyn hyn wedi estyn ei le i'r Ganolfan Grefftau newydd? Roeddynt hefyd yn awyddus i ymweld â'i hen gartref yn y fro, sef Meillionydd, Penisarwaun. Llawenydd i'w orwyres oedd cael troedio hen lwybrau ei hen daid a chludo'r newyddion i'w nain sydd dros ei phedwar ugain oed ac yn ferch i'r diweddar brifathro.

OLION HYNAFOL Mae un neu ddau o dai hynaf y pentref yn cael eu hadnwyddu ar hyn o bryd. Diddorol yw'r datblygiad crefftus i adfail un o dai Gors Bach - y safle ger y capel presennol lle cychwynnodd yr Achos Methodistaidd yn y pentref. Tra'n cloddio ac adnewyddu lloriau hen fwrthyn Adwy'r Dŵr a Mr Hugh Evans, Min y Don yn cynorthwyo'r adeiladydd, darganfuwyd dan lawr llechi y bwthyn olion beddrod

fechan o wneuthuriad llechen lle gorwedda'i gweddillion corff baban. **LLONGYFARCHIADAU** i Lois Eifion, Ffrwd Goch ar ei llwyddiant cerddorol.

Derbyniodd Lois Dystysgrif Anrhydedd am ei pherfformiad yn yr arholiad canu'r piano Gradd 5. **DYMUNIADAU DA.** Mae nifer o blant y pentref wedi bod yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd Sir Eryri fel unigolion ac fel aelodau o bartïon. Dymunwn yn dda iddynt oll yn Eisteddfod Genedlaethol Tawe Nedd ac Afan a gynhelir yr wythnos olaf o Fai ym Mharc Margam ger Port Talbot.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Yn yr oedfa nos Sul, Mawrth 30ain, cydymdeimlwyd ag un o'r aelodau Mr Maurice Jones, Meillionen yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, y diweddar, Mr Edward H. Jones, Caernarfon.

Nos Sadwrn, Ebrill 12fed, yn Theatr Seilo Caernarfon, mwynhaodd grŵp o'r aelodau berfformiad o'r pasiant 'O! Arglwydd dyro awel', sef portread o Gaernarfon yn ystod Diwygiad 1904-05. Roedd y pasiant yn ymgais ar drothwy canmlwyddiant y Diwygiad i gyfleu bwrwm a brwdfrydedd y cyfnod cyffrous hwnnw yn hanes Caernarfon.

Nos Sul y Pasg, daeth cynulliad da ynghyd i'r oedfa dan arweiniad y Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Y GYMDEITHAS. Agorwyd tymor newydd y Gymdeithas nos Fawrth Ebrill 8fed. Groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mr Gwyn Hefin Jones, a diolchodd i'r swyddogion am baratoi'r arlwy ar gyfer i misoedd sydd i ddod. Cafwyd ennyd o fyfyrddod dan ofal Mrs Ifanwy Jones. Cyflwynodd y Cadeirydd y siaradwr gwâdd sef Mr Gwyn Parry, Llys Myfyr, Stad Erw Nant, aelod o'r heddlu sy'n gweithio ym maes Diogelwch yn y Gymuned. Cafwyd noson hwyliog ond llawn gwybodaeth ganddo am waith yr heddlu a chynghorion buddiol ar sut i ddiogelu ein heiddo. Croesawodd gwestiynau gan yr aelodau a chafwyd trafodaeth ar nifer o bwyntiau ar ddiwedd y noson. Paratowyd y baned gan Mrs Eirlys Williams ac Mrs Euronwy Roberts.



Ashley Wagner, Brynrefail yn Marathon Llundain

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ffestri nos Iau, Mai 8fed yng nghwmni Mr Sion Llywelyn, Llanuwchllyn. Y Cadeirydd fydd Mr Gareth Llwyd Dafydd, Creigle. Croeso cynnes i bawb.

OEDFAON MAI

4 **CYMANFA DOSBARTH**
PADARN yng Nghapel Cysegr, Bethel

11 Mr Merfyn Jones, Caernarfon

18 Parch Trefor Jones, Caernarfon

25 Oedfa i'w threfnu

PLYGU'R ECO. Cofiwch mai tro Brynrefail yw plygu'r rhifyn nesaf o'r Eco. Fel y llynedd byddwn yn cyfarfod yn Ysgol Gymuned Cwmyglo. Gobeithio y cawn gefnogaeth dda fel arfer nos Iau, Mehefin 29ain.

MARATHON LLUNDAIN. Mae un dewr yn ein plith a fu'n rhedeg ym Marathon Llundain.

Dyna fu hanes Ashley Wager, 5 Tai Orwig a llongyfarchiadau mawr iddo ar gwblhau y ras mewn 3 awr 58 munud a 46 eiliad. Dywed Ashley, er fod y tywydd braidd yn boeth, i'r profiad fod yn un gwych a'r torfeydd oedd yn cefnogi yn anhygoel o niferus. Casglodd y swm o £388.94 tuag at elusen 'Dreams Come True Charity' a dymuna ddiolch i bawb ar ran yr elusen am y nawdd a dderbyniodd.

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU GYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

cyngor
ar
bopeth

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

CANOLFAN GELFYDDYDOL I LANRUG? CYFARFOD CYHOEDDUS YSTAFELL Y BAND,

Ffordd Glanmoelyn.
Nos Iau, 8fed o fis MAI
Am 7.00 o'r gloch.
Croeso Cynnes i drigolion
Llanrug leisio eu barn.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar nos Fawrth, 8 Ebrill yn y Ganolfan Gymunedol gyda Menna yn llywyddu. Cydymdeimlwyd â Helen ar golli ei mam yng nghyfraith yn 101 oed. Cyhoeddwyd fod y Cyfarfod Blynnyddol a'r Wyl Haf i'w cynnal ym Machynlleth ar 17 Mai a Gwyl Wanwyn y Pum Rhanbarth ar 10 Mai yn Ysgol Friars, Bangor.

Daeth cangen Llanrug yn ail yng nghystadleuaeth Llyfr Lloffion y Rhanbarth a derbyniodd sylwadau ffafriol iawn gan y beirniaid.

Y gwestwragedd oedd y tair chwaer o Gaernarfon, Manon, Medi a Malan Vaughan Wilkinson. Rhoddodd y tair berfformiadau caboledig iawn - canu, canu'r piano, adrodd, monologau a sgets byrfyfyr. Roedd pawb wedi eu cyfareddu gan safon y tair a diolchwyd iddynt gan Nan.

Paratowyd y te gan Mairwen, Mair a Beryl ac enillwyd y raffl gan Margaret, Dwyrws. Cyhoeddodd Beryl fod aelodau'r gangen wedi cyfrannu cyfanswm o £64 tuag at y distawrwydd nodedig a diolchodd yn fawr i bawb.

Gynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Mai gyda Mel Thomas o Hybu Gig Cymru yn ŵr gwadd a hefyd bydd yn Gyfarfod Blynnyddol, YR YSGOL GYNRADD.

Yr Urdd: Dymunwn longyfarch Elin Jones, Bl.5 ar ddod yn fuddugol yng Nghylch Arfon gyda'i gwaith graffeg Cyfrifiadurol ac yn drydydd drwy Sir Eryri.

Gwaith Thema: Fel rhan o'u gwaith thema 'Fy Mhentref' bu disgyblion Bl.1 a 2 a'u hathrawon ar ymweliad â'r Aglwys yma yn Llanrug ac, yn y gwasanaeth boreol fore Gwener olaf y tymor, cawsant gyfle i rannu eu profiad gyda gweddill yr ysgol. Dymunent ddiolch i Mr Arthur Jones am roi o'i amser i'w harwain o amgylch yr eglwys.

Ymweld â'r Ysgol Fictorianaidd yn Llanystumdwy y bu disgyblion

Bl.5 fel rhan o'u gwaith, a bu llawer o drafod a chymharu ffordd o ddysgu y cyfnod hwnnw gyda'r hyn a gânt heddiw.

Diolch: Diwedd y tymor roeddym yn ffarfelio â Mrs Ann Thomas a Mrs Rita Williams a oedd wedi cydweithio â ni yn yr ysgol yn ystod y tymor.

Cyflwynodd Mr Williams, y Prifathro, flodau i'r ddwy a diolch iddynt am eu gwaith caled gyda'r plant.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr a Mrs Wyn Griffith a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Mrs Griffith. **DYMUNA** Ronnie, Doris, Adrian a theulu'r ddiweddar Annie Mary Evans ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a Chwaer annwyl iawn.

Diolch i'r Parchedigion John Pritchard a Gwynfor Williams ac i E. W. Pritchard, Llanberis am drefniadau parchus a thrylwyr.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i staff Plas Pengwaith am eu gofal caredig a thyner.

PRIODAS. Llongyfarchiadau mawr i Gwion ap Llwyd a Meinir Thomas, Ystrad, Ffordd yr Orsaf ar eu priodas ar 19 Ebrill yng Nghapel Hermon. Gwahoddwyd pobl y pentref i'r Ganolfan i gael tamaid o fwyd a diod gyda'r cwpl ac wedyn ymlaen i Westy Melfod, Bontnewydd. Pob dymuniad da i'r ddau.

BABI NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Siân a Maldwyn Morris, 44 Nant y Glyn ar enedigaeth eu merch fach, Elliw. Mae Taid a Nain Llanrug. Goronwy a Glenda Morris a Nain Llanberis. Vera Griffiths, wedi gwrloni.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwern ddiolch yn fawr iawn am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion a gafodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Edrych ymlaen i fod yn ôl yn yr ysgol gyda Mrs Roberts a phlant y dosbarth derbyn.

Fe ddymuna Mrs Sarah E. Thomas (Sally), Min-y-rhos, Ffordd yr Orsaf ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd yn 98 oed yn ddiweddar.

DIOLCH. Fe ddymuna Jean Davies, Rhyd y Delyn, ddiolch yn



Y cigydd, Wavell Roberts, Llanrug a enillodd bedair gwobr aur mewn cystadleuaeth yn Llandudno yn ddiweddar. Ymysg y cynnyrch a enillodd roedd Porc Amarillo, sef stecen porc wedi'i gorchuddio gyda briwsion Hawaii. Enillodd y Porc Pei, y Selsig Porc Traddodiadol a'r Byrgyr Cig Eidion wobwr aur iddo hefyd. Llongyfarchiadau.

fawr iawn i'w pherthnasau a'i ffrindiau am yr anrhegion, y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phen-blwydd. **Diolch yn fawr.** **DYMUNA** Siân a Maldwyn Morris, 44 Nant y Glyn ddiolch am y rhoddion, y cardiau a'r galwadau ffôn a gawsant ar enedigaeth eu merch, Elliw.

CYDYMDEIMLWN â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch.

GWELLHAD buan i Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan sydd wedi bod yn yr ysbyty ers wythnosau bellach. Cofion gorau atoch chi.

DIOLCH. Dymuna Margaret, merch y ddiweddar Mrs Menai Jones, Sycharth, Gwelfynydd, ddiolch yn ddiffuant iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad tuag ati yn

dilyn ei phrofedigaeth.

Hefyd fe ddymuna Mrs Mair Williams, 23 Dôl Eilian, Llanberis, chwaer y diweddar Mr John Elwyn Jones, 11 Glanmoelyn, a fu farw yn dawel yn ei gartref ar 15 Chwefror ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag ati hi a'r plant o golli ei brawd. **Diolch hefyd** am yr holl gardiau a galwadau ffôn a dderbyniwyd. **Diolch yn fawr i'r cymdogion a'i holl ffrindiau.**

DYMUNA Mair, Eirwen a Dick a'r teulu ddiolch o galon i'w ffrindiau, cymdogion a phawb a gydymdeimlodd â hwy wedi colli eu hannwyl frawd. 'Ioi', sef Iorwerth Jones, 21 Y Glyn, Caernarfon, gynt o Lanrug.

Diolch hefyd am yr arian hael a roddwyd at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, gyda diolch i bawb am eu gofal.

Canolfan Gelfyddydol i Lanrug?

Dros yr wythnosau diwethaf bu nifer o drafodaethau anffurfiol rhwng aelodau Cyngor Cymuned Llanrug a cynrychiolwyr Band Llanrug a Chwmni Rygarug ynglŷn â'r posibilrwydd o gael canolfan addas a fyddai'n gwasanaethu anghenion y Band a Rygarug, ac unrhyw fudiad celfyddydol arall o fewn yr ardal. Er fod gan y Band cu heiddo eu hunain ar Ffordd Glanmoelyn, mae'n rhaid wynebu'r ffaith mai adeilad pren ail-law oedd o pan brynwyd ef yn 1957, ac nad oes hir ocs iddo fel ystafell addas i Bencampwyr Cymru ymarfer ynddi. Yn yr un modd, mae Rygarug wedi datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddod yn weithgaredd theatrig prysur a phoblogaidd o fewn y fro, gyda galw am nifer o adeiladau ac ystafelloedd o faint gwahanol ar gyfer eu hymarferiadau. Mae trefnu'r gwahanol leoliadau yn gosod straen ar eu hadnoddau.

Er bod Y Sefydliad Coffa wedi ei weddnewid i fod yn ganolfan gymunedol bwysig, nid yw'n hollol addas ar gyfer y math o weithgaredd theatrig/offerynnol/pcrfformio sy'n cael ei gynnig gan y Band a Rygarug. Ac y mae'r gwahanol gymdeithasau a mudiadau sy'n defnyddio'r Sefydliad yn golygu fod bron pob ystafell yn yr adeilad eisoes yn llawn gwahanol weithgareddau bob nos o'r wythnos.

Er mwyn i drigolion a threthdalwyr Llanrug cael cyfle i leisio cefnogaeth i ganolfan gelfyddydol, cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Ystafell y Band (docdd dim posibl archebu ystafell wag yn y Sefydliad Coffa!) ar nos Iau, 8fed o fis Mai am 7.00 o'r gloch. Bydd cyfle i glywed am y syniadau sydd eisoes wedi eu gwyntyllu, a chyfle hefyd i chwithau, drigolion Llanrug ddatgan eich barn ynglŷn â'r syniad.



GARETH GRIFFITH A'I GWMNI

Cyfreithwyr

6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG

Tel: 67 68 69 Ffacs: 67 77 05

E-bost: ggriffith.ggeo@virgin.net

- Prynu a Gwerthu Tŷ • Ewyllysiau a Phroffiant
- Hawliadau Damweiniau • Prydles ac Eiddo
- Cyfreithiad Troseddol a Sifil • Deddf Drwyddedu
- Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn
- Perchennog a Thenant
- Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AG ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Mrs Betty Evans, Llys y Gwynt ar gyrraedd ei 90 oed. Pob dymuniad da i'r degawd nesaf, Mrs Evans.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Emyr a Katy ar enedigaeth mab bychan, Ioan, ac i Eiriona a Ieuan ar ddod yn daid a nain unwaith yn rhagor. Pob bendith i chwi fel teulu.

DIOLCH. Dymuna Mrs Elen Williams, 2 Bryntirion, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr oedd: Manon Glyn, Erw Gain; Gwen Griffiths, 6 Tai Arthur; Susan Williams, Bryn Rhydd.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Deiniolen a Chwm-y-glo bawn Sul, 6 Ebrill am 2 o'r gloch ym Mosra. Braf oedd gweld y capel yn llawn a phlant yr ysgolion Sul yn gwneud eu rhan mor raenus. Diolch i athrawon Ysgol Sul Bosra am gymryd y rhan dechreuol. Diolch hefyd i Arweinydd y Gân, John Eifion am arwain y Gymanfa mor gartrefol gan sgerhau Cymanfa lwyddiannus dros ben.

Cynhaliir Cymanfa'r Methodistiaid ym mis Mehefin.

GWELLHAD. Antonwn ein cofion at Iris Williams, Gae'r Bledwyn wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty ac rydym yn falch o glywed dy fod yn gwella, Iris.

Rydym yn holi'n gyson am eraill ohonoch sy'n derbyn triniaethau ac yn meddwl amdanoch.

PROFEDIGAETH. Antonir ein cydymdeimlad llwyrat â theulu'r diweddar Bobbi. Bydd bwch mawr ar ei ôl, ond llu o atgofion melys.

DYMUONA teulu y diweddar Robert Jones (Bobbi), gynt o 13 Bryntirion, Penisarwaun ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Bobbi. Diolch yn fawr.

Teyrnged i Bobbi gan ei nai, Osian

Mae 'na hen, hen chwedl Geltaidd yn sôn am wlad tu hwnt i'r môr. Dyma wlad lle mae pawb yn byw am byth, gwlad lle mae pawb yn

byw yn ifanc. Does 'na ddim ffasiwn beth â heneiddio yn digwydd yno. Yn anffodus, ni chaf i fyth y fraint o fyw yno, y mae Tir-na-nog yn bell o fy ngafael i.

Yng nghanol bwrwm bob dydd, mae'n hawdd anghofio pethau bychain bywyd. Mewn ffordd mae'n synhwyrâu ni i gyd wedi eu cymylu trosodd. Dim ond wrth weld plentyn bach yn chwarae neu'n rhedeg neu'n chwerthin y mae hi'n bosib i ni gael cipolwg o fywyd diniwed. Bywyd sy'n bell o gyrraedd pob un ohonom ni.

Ond i Bobbi, roedd pethau'n wahanol. Do, mi dyfodd yn ddyn. Ond eto mi gariodd Dir-na-nog yn ei galon hyd y diwedd.

A gwyn ei fyd o am hynny.

Mi fuo fo'n byw hefo ni am yn agos i ddeunaw mlynedd wedi i'w rieni, Jennie (Price) Jones a Will Jones, fy nhaid a nain, farw. A dwi'n ddiolchgar fy mod wedi cael y cyfle i ddod i'w nabod o mor dda. Roedd Bobbi'n ffrind i bawb, mae'r rhestr yn rhy hir.

Mae pob gyrrwr bws o fan hyn i Ddolgellau yn ei adnabod, yn ogystal â phawb sy'n gweithio hefo Manweb a'r post, a phob siop a chaffi ar hyd a lled yr ardal. Mae'n wir i ddawud fod pawb yn yr ardal yn ffrind iddo.

Mi gerddodd filltiroedd ar filltiroedd yn ei gap llongwr a'i oilekino, yn mynd dŵn-dŵn i weld hwn a'r llall, yn stopio am sgwrs a smôc, gan obeithio y byddai ei boced yn llawn pan ddô adra.

Un o bleserau mwyaf Bobbi oedd cerddoriaeth, boed yn gitâr neu'r gorn band, neu'n eistedd yn ôl yn gyfforddus fel brenin yn ei barlwr yn gwrando ar John ac Alun, Dafydd Iwan, Pavarotti neu fand Llanbabo, yr oedd ganddo gymaint o feddwl ohonynt.

Yn rhyfadd ddigon, dyna un o'r pethau ola oedd ar ei feddwl o brynghawn dydd Llun yn Ysbyty Gwynedd. Roedd Bobbi yn eistedd yn ei wely fel arglwydd a phawb yn ffysio o'i gwmpas.

'O, Gwennan,' medda fo, 'Dos adra a chuddia fy nghapia i cyn i Osian ddod adref o Aberystwyth a'u dwyn nhw i gyd.'

Oedd wir, roedd ganddo feddwl y byd o'i bethau bach.

Fel teulu, mi fyddwn yn gweld collad fawr ar ei ôl. Wn i ddim faint

Ysgol Gymuned Penisarwaun



Claire, Leanne a Siôn Patrick yn cyflwyno sic ar ran yr ysgol i gynrychiolydd o 'Tŷ Gobaith'.

Ysgol Sul Bosra



Mr Evie Wyn Jones ac aelodau o Ysgol Sul Bosra, Penisarwaun yn cyflwyno sic i gynrychiolydd o 'Tŷ Gobaith'.

o weithiau dwi wedi clywed rhywun yn dweud eu bod nhw'n disgwyl i Bobbi fyw am byth. Ac mi fydd o!

Roedd o'n hen graadur bythgofiadwy, ac mae ei deulu, Emrys, Olwen, Gwennan, Siôn, Betty, Robert, Huw, Gwawrwen, Siân, Bethan, Iona, Kelvin, Erin Mai, Garwyn, Daniel Cai, a finna, wrth gwrs, yn llawn galar o weld un a oedd mor addfwyn yn ymadael â ni. Ond mi fydd yn agos iawn at galonau pob un ohonom ni, a chwithau dybiwn i.

Fydd yr hen ardal yma fyth yn peth. Ond eto mae yna hapuswrydd. Hapuswrydd o gael y cyfle i fod wedi adnabod un mor arbennig.

Yn bersonol, mi fydd Bobbi ym mhob man hefo fi, lle bynnag y bydd llwybr yr hen fyd 'ma yn fy nhywys.

Bob tro y bydda i'n clywed band pres, Bobbi fydda i'n glywed. Bob tro y bydda i'n camu ar fws, mi fydd Bobbi yno yn eistedd yn sgwrsio hefo'r gyrrwr. Pob tro y bydda i'n aroglu mwg baco, Bobbi fydd yno.

Ac wrth feddwl amdano: Dwi'n gweld Bobbi yn eistedd ar ei gadair freichiau gyfforddus yn yr ardd, wedi ei amgylchynu â haul cynnes. Slipars am ei draed, cap fflat am ei ben, pibell yn ei geg ac andros o wên ar ei wyneb, yn ordro Mam i fynd i wneud paned iddo. A dyna'n union sut dwi am ei golio.

Cyn i mi orffen mi hoffwn ddiolch ar ran y teulu, i Mam a Dad, sef Emrys ac Olwen, Llanllyfni am roi cartref a chariad a phob cymorth iddo. Diolch i chi.

Mae'r geiriau olaf yn perthyn i un o feirdd mwyaf ein gwlad, R. Williams Parry, wedi eu newid rhyw tymryn felly maddeuwch i mi am y newid odl yn y llinell olaf:

Wedi ei fyw y mae dy fywyd, dy rawd
Wedi ei rhedeg hefyd:
Daeth awr i fynd i'w weryd,
A daeth i ben deithio bysus.

O SELAND NEWYDD. Cofiwch wylio'r rhaglen 'Ar dy Feic' gyda Hywel Gwynfryn, nos Sul, 4 Mai. Galwodd i weld Gwennllian Parry, Tawelfa, sy'n gweithio fel Seicolegydd Clinigol yn Ohope. Bydd yn braf cael hanes Gwennllian a'r teulu sy'n byw ar fin y traeth a chlywed am waith diddorol Gwennllian gyda'r Maori.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y Noson Bingo yn ddiweddar. Diolch arbennig i Selwyn am drefnu i fenthg y peiriant ac am alw'r Bingo. Gwnaed elw o £100. Mae trip wedi ei drefnu ar gyfer 7 Mehefin. Byddwn yn mynd ar y bws i Gaernarfon ac yna ar y tren bach i Waunfawr ac yna ymlaen ar y bws i Feddgelert, lle bydd cyfle i gael te, cyn dychwelyd adref.

CARTREF NYRSIO. Cafwyd amryw o weithgareddau dros Wyl y Pasg.

Dydd Iau Cablyd: Cymun o dan ofal ficer St. Helen, y Parch Ann Smitham;

Dydd Sul y Pasg: Gwasanaeth dan ofal y Parch Dafydd Lloyd Hughes gyda'i briod Mrs Ann Hughes yn cyfeilio.

Dydd Llun y Pasg: Rhanwyd wyau pasg i'r preswylwyr gan Hazel, oedd wedi ei gwisgo fel bwni'r Pasg, gyda Mair a Liz yn cynorthwyo. Talwyd am yr wyau o gronfa'r preswylwyr. Diolch i Helen am drefnu i'w prynu. Roedd raffl wedi ei threfnu a'r enillwyr oedd: Miss Mabel Edwards, Towyn; Gill Holdsworth; Marian Davies, Llanberis.

Diolch i'r gogyddes, Hilary Humphreys, am y te blasus ac i bawb a gyfrannodd at wobrau'r raffl.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Jones
Contractwyr
Trydan

Coleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddod yr Urd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

DEINIOLLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

MARWOLAETH. Dymuna teulu Mary Roberts, 15 Minafon, Bangor (yn enedigol o Ddeiniolen), ddiolch i'w holl gyfeillion o ardal yr EGO am eu caredigrwydd a'u hymweliadau â hi tra bu'n wael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac am eu cydymdeimlad pan fu farw ddiwedd Mawrth.

YSGOL FEITHRIN. Mae Ysgol Feithrin Deiniolen angen Arweinydd a Chymhorthydd Meithrin i arwain a chynnal sesiynau bore a phrynhawn, ac i gyflwynu cyn gynted â phosib. Bydd angen cymhwyster NVQ3 mewn Gofal Plant ar gyfer swydd Arweinydd ac NVQ 2 ar gyfer swydd y Cymhorthydd, neu fod yn barod i astudio i gael y cymhwysterau yma. Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn angenrheidiol. Cysylltwch â Glenda Jones ar (01286) 870836 neu Elen Jones ar (01286) 872192. Dyddiad cau: Dydd Llun, 12 Mai.

Y SEINDORF. Cynhelir Cyngerdd Blynyddol y Seindorf nos Wener, 16 Mai yn Ysgol Brynrefail, Llanrug am 7 o'r gloch.

Yn cymryd rhan gyda'r Seindorf fydd John Eifion, Côr Eryri. Parti Urdd Deiniolen a Stephanie Williams. Yr arweinydd fydd Eifion Harding.

Bydd bws am ddim yn cychwyn o Rhydrafod am 6.30pm.

Y PASG. Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghofnywaun nos Iau Cablyd. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd gan y Parch John Pritchard. Cafwyd Awr Dawel o 2 hyd 3 yn Eglwys Llandinorwig ddydd Gwener y Groglith o dan ofal y Parch Geoffrey Hughes.

Ar Sul y Pasg, cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu Cofnywaun. Ein cennad eleni oedd y Parch Trevor Jones, Caernarfon a chafwyd ganddo bregethu grymus a choeth fel arfer.

DIOLCH. Dymuna Annette Bryn Parri. Cynefin ddiolch am yr holl gardiau, llythyrau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn y llawdriniaeth a gafodd yn ystod mis Mawrth.

YSGOL GWAUN GYNFI. Cynhaliwyd Noson o Ddawns nos Fawrth, 1 Ebrill, yn Theatr Gwynedd Bangor. Noswaith o blant ysgolion Gwynedd yn perfformio oedd hon

ac roedd plant CA2 yr ysgol yn cymryd rhan.

DIWRNOD TRWYNAU COCH. Casglwyd £288.36 tuag at yr elusen yma drwy werthu trwynau coch, dyfalu steil gwallt a'r plant yn talu am ddod i'r ysgol gyda'u gwalltau'n wahanol i'r arfer.

CYNGERDD. Bu plant CA2 yn gwrando ar gyngerdd bandiau pres Arfon yn Neuadd PJ ym Mangor dydd Mawrth, 8 Ebrill.

DON'T TOUCH - TELL. Bu cwmni pypedau yn yr ysgol yn rhoi cyflwyniad o'r sioe 'Don't Touch - Tell' i holl blant yr ysgol. Sioe oedd hon yn codi ymwybyddiaeth plant o ddefnyddio cyffuriau oedd hon.

YR AMGUEDDFA LECHI. Gan fod plant CA1 yn dilyn thema tai y tymor hwn bu'r plant yn ymweld â thai Fron Haul yn Amgueddfa Lechi Llanberis. Gwelsant sut y mae tai wedi newid ar hyd y blynyddoedd.

PLANT BLWYDDYN 6. Bu plant blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail am y diwrnod ar ddydd Gwener, 21 Mawrth.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod yn Tŷ Elidir ar nos Lun, 14 Ebrill. Estynnwyd croeso cynnes i'r gŵr gwâdd, y Parch Marcus Robinson gan Buddug Jones. Yn ei ddull dihafal ei hun soniodd wrthym am ei gefndir yn nhref Caernarfon ac yna am ei fywyd ar y môr fel Caplan yn y Llynges. Mwynhaodd pawb y sgwrs yn fawr iawn. Cafwyd digon o hiwmor a threog trwstan ganddo. yn ogystal â chyflwyniad i'r cefndir morwrol. Diolchwyd iddo gan Marian Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, 19 Mai pan fydd Margaret Jones. Tregarth yn dangos sut i baentio ar sidan. Aiff amryw o'r aelodau i'r Wyl Wanwyn i Fangor ar 10 Mai

CYMDEITHAS Y CHWIORVDD. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn Festri Ebeneser bawn Iau, 3 Ebrill. Dechreuwyd a llywyddwyd gan Mrs Jane Thorman Jones a rhoddwyd y te gan Miss Bell Williams. Cawsom gwmni y Parch John Pritchard a soniodd wrthym am Feibl Net a gyflwynwyd gan Mr Arfon Jones. Caerdydd ac am lyfr a chaset newydd o ganeuon i blant. Cawsom gyfle i glywed y plant yn canu rhai o'r caneuon a gyfieithwyd gan Arfon Jones.

Anfonwyd ein cofion cynnes at Mrs Dilys Williams, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar

bawn Iau, Mai y cyntaf. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd swper y Gymdeithas nos Fercher, 2 Ebrill yn Y Caban, Llanberis. Cafwyd gwledd ardderchog yno mewn awyrgylch gartrefol a diolchir yn fawr i Mr a Mrs Kevin Davies a'r staff am eu croeso a'u gwasanaeth. Y gŵr a'r wraig wâdd oedd y Parch a Mrs Trevor Lewis, Porthaethwy a chawsom sgwrs ddifyr gan Mr Lewis wedi'r wledd. Dymunodd y Parch John Pritchard yn dda iddynt ar eu symudiad i Goleg Trefeca, ger Aberhonddu. Cafwyd noson ddymunol iawn gan bawb.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Y gŵr gwâdd yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Gymdeithas oedd y Parchedig Jeffrey Hughes, Caernarfon. Roedd wedi dod â'r darlun o 'Salem' gan Curnow Vosper gydag ef ac eglurodd yn fanwl iawn leoliad y darlun yng Nghapel Salem, capel y Bedyddwyr, Cefncymerau, Cwm

Nantcol, ger Llanbedr, Sir Feirionnydd yn 1908. Rhoddodd inni enwau'r cymeriadau a fu'n eistedd yn y capel, gyda'u hanes a'u cysylltiadau â'r ardal. Diolchwyd i'r Parchedig Jeffrey Hughes am roi inni noson hynod ddiddorol.

Nos Lun, 12 Mai bydd y bws yn gadael Rhydrafod am 6.30 i Blas y Faenol ac yna am bryd ysgafn i'r Half Way House yn Y Felinheli.

Tŷ ELIDIR

Mae Tŷ Elidir, Stryd Fawr, Deiniolen ar gael i gynnal cyfarfodydd neu bwyllgorau neu bartïon pen-blwydd ayyb. Golyga hyn o 10 y bore hyd 10 yr hwyr bob dydd ond Sadwrn a Sul.

Cysylltwch am fanylion ag Alan Parry, 19 Pentre Helen, Deiniolen LL55 3LM Ffôn 07773 447223 e-bost: alanparry@anserve.com.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CAPEL Y TABERNACL

Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Bosra, Penisarwaun dan lywyddiaeth athrawon Ysgol Sul Bosra. Arweinydd y Gân oedd Mr John Eifion gyda Mrs Ann Ifans wrth yr organ. Cymerwyd rhan gan blant Ysgolion Sul Bosra, Capel Coch, Llanberis, Tabernacl, Cwm-y-glo ac Ebeneser, Deiniolen. Rhoddwyd y Fendith gan Mr Robert Lloyd, Jerusalem, Llanberis. Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i athrawon yr Ysgolion Sul am hyfforddi'r plant ac i'r plant hwythau am waith canmoladwy iawn, hefyd diolch i drefnwyr y Gymanfa.

GWIBDAITH. Trefnir taith gyda chydweithrediad Teithiau'r Grug i 'Safari Park' a Bedley ar 22 Mehefin. Ceir mwy o fanylion yn nes ymlaen.

CEUNANT

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Graham a Siân, Marvita, Ceunant ar enedigaeth eu mab Osian Eifion - brawd bach newydd i Siôn Eifion.

EFEILLIAID. Llongyfarchiadau i Evan a Helen Parry, Morwel, Ceunant ar ddod yn Daid ac yn Nain i efeilliaid yn ddiweddar, sef Lisa Erin ac Elin Mair - ganwyd yr efeilliaid i Gwenno a Dafydd Jones, Coed Cae Du, Ynys, Cricieth.

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad at Evan Parry a'r teulu, Morwel, Ceunant ar golli mam, nain a hen nain annwyl iawn yn ddiweddar, sef Gaenor Parry, Arfaes, Ffordd Bethel, Caernarfon. **DYMUNA** Evan a Helen Parry ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!




GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

CROESAIR MAI



4 ar draws ydi'r adar sy'n cuddio'n y croesair ac sydd heb gliwiau iddynt.

Ar draws:

- 1 Sucan tenau (6)
- 7 Y gallu i alw yn ôl i'r maddwl --- (3)
- 10 --- pan fydd y gwrachod ar droed (3,5)
- 11 Yn agored i anonestrwydd (8)
- 13 Cyfanwaith mewn un dodrefnyn cain (5)
- 14 Mae'r rhai prysur â gormod o'r rhain yn y tân (5)
- 15 Gorchymyn am nwyddau? (5)
- 17 Meddyg i wella'r ddannoedd (7)
- 19 Cerflun i'w weld wedi torri? (4)
- 20 Ymserchu (4)
- 22 Plannu gwydd (8)
- 24 Cadachau poced (8)
- 28 Talu'r pwyth yn ôl (4)
- 29 Y dref ble mae'r afon yn arllwys o'r llyn! (4)
- 31 Myfyrio (7)
- 34 Arthur ofnadwy o ofnadwy? (5)
- 35 Y cyntaf yn y Blaenau? (5)
- 36 Anaf i'r athro wrth i'w ddechfydd ysgrifennu ddod yn ôl? (5)
- 40 Chwibanogl y mynydd (8)
- 41 Magnol o bsgwn y Gogledd? (3)
- 42 Rhuthro o gwmpas (6)

I lawr:

- 2 Cymeryd lle un arall yn annheg (7)
- 3 Hen orffwysfan mewn cyfnod a ddaw drachefn (5)
- 5 Deniadol (7)
- 6 Gwneud cwrw (6)
- 7 Plisgyn y crancod? (3)
- 12 Ai ar y Sul yn unig y dylid cyfarch fel hyn? (3,2)
- 16 Anifeiliaid bychan, sionc, sy'n byw ar waed (5)

- 17 Richard, i'w fêts (3)
- 18 Bod, neu fynd yn ddistaw (4)
- 23 Ymestyn (5)
- 25 Ystâd annormal yn y meddwl ydi atal dwyn!! (8)
- 26 Gwneud yn un (3)
- 27 Cwt a banc anhreftus!! (5)
- 28 Diamddiffyn (7)
- 30 Ceisio dangos fod damecaniaeth yn wir (7)
- 32 Clebryn pigog a busneslyd yr Eco (7)
- 33 Troclog, ac yn dal felly ar ôl colli un!! (6)
- 36 Amser cyfaddas i roi pwysau ym mhac y flewog gawres! (5)
- 37 Gwich gan un sydd wedi dychryn (5)
- 39 I fyny yn y del! (3)

Derbyniais atebion i groesair mis Ebrill gan Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; E. E. Jones, Rhoshirwacn; Nant Roberts, Llanrug; Gwen Griffith, Deiniolen; Megan Morris, Dinorwig; Olwen Jones, Bethel; Mali Parry-Jones, Morfa Nefyn; Margaret Wyn Roberts a Mair Evans, Caernarfon; Jennie Williams ac M. P. Jones, Clynnog; N. Hughes, Cwmyglo; Nansi Davies, Rhuthun; H. O. Hughes, Pwllheli; Nan Owen, Vera Griffith, Moreen Lennon ac Olwen Owen, Llanberis; Pat Owen, Caerfyrddin; B. Mowll, Penisarwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch ac Eluned Jones, Trefor.

Enillydd y mis ydi H. O. Hughes, Tân y Graig, Penlôn Llŷn, Pwllheli. LL53 5SW. Llongyfarchiadau a £5 i chi. Ar ôl cwblhau croesair mis Mai, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, LL55 3HE erbyn Mai 19.

RHODDION

£40: Er cof am Mrs Menai Jones, Sycharth, Gwêl Fynydd, Llanrug.

£25: Mr a Mrs Alun Lloyd Jones, Llanberis.

£20: Mrs Alice Searell Jones, Nant Peris; Er cof annwyl am Mrs Peggy Roberts, Elidir, Beck View, Suffolk gan ei gŵr Mr Leslie Roberts, Elidir, Hafod Garegog, Clwt y bont, Deiniolen; Eifion ac Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian, Brynrefail; Er cof am y ddiweddar Mrs Annie Mary Evans, Llanberis.

£16: Mr P.W. Williams, 19 Chatellerauld Court, Corby.

£11: Mr R.W. Roberts, Dorvil Road, Blaenau Ffestiniog; Di-enw; Mrs Olwen Ebrell, Coventry; Mr John Evans Hughes, Kirby Muxlowe; Mr Alun T. Williams, Bron Waun, Waunfawr;

£10: Evan a Helen Parry, Morwel, Ceunant; Dr Fraser Williams, Sale, Cheshire; Mrs Gwyneth Beswick, The Boulevard, West Derby; Er cof am Bobbi Penisarwaun, gan y teulu; Mrs Margaret Jones a'r teulu, Arosfa, Waunfawr.

£6: R. Gwynn Davies, Bryn Eithin, Waunfawr; Miss M. Griffiths, 21 Caerhun, Bangor; Di-enw; Mrs G. McCarthy, Yew Bank Road, Childwall; Mrs Anna Sidebotham, Whealey Bridge;

£5: Elen Williams, 2 Bryntirion, Penisarwaun; Mrs B. Williams, Alnwick Close, Bishop Auckland; Mr a Mrs O. Jones, Rhos Llwyn, Llangefni; Mrs Helen Francis, Higher Kinnerton; Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, Llanrug; Mrs Mair Williams, Llanberis er cof am Mr John E. Jones, Glanmoelyn, Llanrug; Mr a Mrs Gordon Davies, 10 Bryn Moelyn.

£4: Mrs Jenny Williams, Morfa Bychan; Mrs Lena Lee, Morfa Bychan;

£3: Mr Ronnie Williams, Yr Erw, Aylestone; Mrs Mair Parry, Gorwel, Llanllyfni; Mrs Alvona Jones, Prestatyn; Er cof am Iorwerth Jones, 21 Y Glyn, Caernarfon.

£1: Mrs J. Davies, Siop Gwynfil, Llangetho; Mrs Elizabeth Williams, Y Felin, Llwyndyrus; Mr Goronwy Owen, Heol Croes, Porthcawl.

Llongyfarchiadau Llanrug! Pencampwyr Gogledd Cymru 2003



Erbyn y byddwch yn darllen hyn bydd Llanrug wedi eu coronni yn bencampwyr Cynghrair Gwynedd.

Dangoswyd cryn nerfusrwydd yn y gêm gyfartal 1-1 yn erbyn Nefyn ganol yr wythnos, ond dylsai'r tri phwynt angenrheidiol gyrracdd i dawelu'r ofnau.


Mae Biwmares yn dal i ymdrechun galed, yn cnwedig wedi'r sgôr anhygoel o 17-3 yn erbyn Deiniolen. Ydy hyn yn arwydd tybed?

Y tro diwethaf i Lanrug

ennill y bencampwriaeth roeddwn yn dyfarnu pan chwalwyd tîm y Brifysgol o 17-0, a Llanrug yn trechu tîm da Machno o drwy y blewyn. Os daw y bencampwriaeth, yna bydd pwysau i gyflawni'r dwbwl drwy guro Porthmadog am Gwpan Gwynedd.


Gyda Bethel hefo cyfle am bencampwriaeth a thair cwpan, a Llanberis â chyfle da i gipio Cwpan Alves, gallai'r golygydd chwaraeon gael mis diog y mis nesaf - tudalen ôl llawn o luniau timau buddugol y fro.

Gyda llaw, a welwyd cystal tîm clwb â thîm cyfredol Real Madrid. Gwfreiddiol yn wir. Y gêm yn ymddangos yn hawdd, gyda phasio a symud rhyfeddol oddi ar y bêl. Edrychaf ymlaen y tymor nesaf i weld gôl-geidwaid ein timau lleol yn taflu'r bêl allan i ddechrau symudiad yn lle y gic hir undonog o'u dwylo. Beth am wneud y tymor nesaf yn dymor gwella sgiliau?



CHWARAEON

Aw'r Gwerth Chweil



W. J. Griffith, PantTirion, Llanrug, Cwll Plymar, dyn chwaraeon o'i goryn i'w sawdl - ac mae hynny'n gryn bellter. Cefais orig ddifyr yn ei gwmni, gan ganolbwyntio ar ei ddwy hoff gamp - dartiau a chriced. Erbyn hyn ef yw Llywydd Cynghrair Dartiau Caernarfon a'r Cylch ers 15 mlynedd. Bu'n Gadairydd cyn hynny ac yn aelod o'r pwyllgor ers cyn cof. Yn wir, urddwyd ef ag Aelodaeth am Oes yn 1975 am ei gyfraniad hyd hynny, ac mae'n dal i arwain.

Ffurfiwyd y Gynghrair gyda llaw yn 1946, a thimau Rhyddallt a'r Goat, Pen-y-groes fu'r aelodau di-dor am yr amser hiraf.

Fel chwaraewr, cynrychiolodd dimau Glyntwrog, Palace 'A', y Rhyddallt a Bryngwina. Soniai am y 60'au a'r 70'au fel 'oes aur' gyda dim ond un gynghrair o 16 tim - a phawb yn gallu curo'i gilydd. Enillodd y bencampwriaeth gyda thîm y Rhyddallt chwe gwaith, a chyrraedd ffeinal y dwbwls ddwy waith gyda'i bartner o'r Rhyddallt, Owie Lewis. Fel capten, daeth yr uchafbwynt pan lediodd dimau 'A' a 'B' y Gynghrair i ennill pencampwriaeth Gwynedd - y *Super League*. Tipyn o gamp! I gael syniad o'r dyfnder gallu, roedd yn rhaid cynnal pedair gêm dreial i ddewis y timau! Er nad yw'n chwarae bellach y mae'n gaptan ar dim y Gynghrair ar gyfer eu gêm flynyddol yn erbyn Cynghrair Bangor a'r Cylch - a hyd yn hyn mae'n ddiguro!

Y newid mwyaf o dan ei arweiniad oedd ymestyn y Gynghrair o'r 16 dechreuol. Daeth ail adran ddiwedd y 70'au ac yna, oherwydd y galw yng nghanol yr 80'au, daeth trydydd adran. 48 o dimau - dros 500 yn taflu bob nos Lun. Yn wir, daeth y gamp mor boblogaidd fel y bu rhaid troi rhai timau i lawr er mwyn cadw'r rhif i'r 48

delfrydol. Siom iddo oedd y gwahanu yn nhymor 2001/02 pan adawodd rhai o dimau'r 'dre' y gynghrair. Serch hynny, mae'r Caernarfon and District yn dal ei thir.

Yn amlwg mae tyfiant poblogrwydd pŵl wedi amharu ar rai timau. Hefyd costau teithio i gemau yn drech na rhai. Er hynny, mae'n gynghrair gystadleuol ond hefyd yn gymdeithasol iach o hyd. Braf nodi hefyd fod nifer o chwaraewyr ifanc yn cael eu denu i'r gamp. O reidrwydd, rhaid oedd edrych yn ôl ac ymysg y prif chwaraewyr cofia W. J. am Guto Roberts (Dolbadarn), Bryn Griffiths (Glangwma), Owie Lewis (Rhyddallt) a Huw Owen a Michael Griffiths (Rhyddallt). O'r timau, timau cryf Halfway, Felinheli (60'au) a'r Rhyddallt (ganol y 70'au).

Ei ail gariad yw criced. Bu'n chwarae am flynyddoedd fel bowliwr cyflym i Fron Dinas a tipyn o 'slogiwr' gyda'r bat. Yn 43 oed, cymerodd 94 wiced mewn tymor ac oni bai am ddiwedd glo gwlyb i'r tymor teimlai fod y 100 hudol o fewn ei gyrraedd. Cofia'n arbennig am gymryd 8 - 18 yn Octel, Amlwch a cholli. Mae'n wylwr o'r gêm, ac wrth ei fodd fod Morgannwg yn teithio i Fae Colwyn yn flynyddol. Mae'n hoffi'r batwyr ymosodol, ac yn dipyn o ffan o Mathew Maynard (y ddau ohonom yn cytuno).

O ran cymeriadau, parchai ddycnwch a greddf Brian Close a Fred Trueman. Soniodd am nifer o gemau a dyfynnu sgoriau. Mae'n byw y gêm. Cerdded adref o'r hen ysgol Brynrefail amser cinio i wrando ar sylwebaeth radio o gyfres y Llewod 1948 a thîm Awstralia dan Dai Bradman yn ennill eu plwyf fel 'y tim gorau erioed' - yn *invincibles*. Buasai'n dipyn o gêm rhyngddynt a thîm presennol y 'capiâu gwyrdd'.

Ond mae llinach y teulu yn

Y Bregeth ar y Mynydd

Fel miloedd eraill cymerais fantais o'r tywydd godidog i gerdded llethrau'r Wyddfa. Yr oedd Eryri yn ei ysblander, ac yn sicr yn gwneud i rywun synfyfrio a cheisio dychmygu bywyd o ddydd i ddydd yng Nghwm Brwynog, Capel Hebron a'r Hafoty. Yr oedd cerdded y llwybrau yn anodd, ac ni allwn lai na pharchu camp y sawl sy'n cystadlu yn ras flynyddol yr Wyddfa. Yn sicr, mae'r rhedwyr yma ymysg y rhai mwyaf disgybledig ym myd y campau. Y mae meddwl am redeg i'r copa ac yn ôl mewn ychydig dros awr yn ysgytwol - a hynny unai mewn gwres llethol neu wynt a glaw. Dyma wir ystyr y gair amatur ym myd y campau - un sy'n paratoi a defnyddio'i dalent i herio'r

gamp mewn llaw, gan osod ei safonau ei hun ar y perfformiad.

Gyda llaw, tra'n cael llymaid yng Nghaffi Hanner Ffordd clywais sgwrs a gododd fy nghalon yn arw. Dwy ferch ganol oed - o Fôn y tybiwn - yn eistedd ar y glaswellt. Meddai un wrth y llall, 'Dydy'n ofnadwy bod nhw eisiau cymryd y pwyntiau oddi wrtha ni hefo'r ffwtbol?' 'Yndi,' meddai'r llall, 'fe 'nawn nhw rywbeth i'n stopio ni lwyddo,' n gnawn.' Y Fam yn poeni unwaith eto!

Wedi safiad y gwir gefnogwyr i gael chwifio ein baneri cynhenid - Dewi Sant a Glyndŵr - gobeithio y bydd y wlad yn uno i ennill y pwynt yn y ddadl hon hefyd - neu chwe phwynt!

Ydi'n Amser Gwahardd 'Protest'?

Dyna haerid lloerig meddech chi! Cyfeirio rydw i at y sefyllfa wirion yn ymwneud â phêldroed lleol ar hyn o bryd.

Y mae'r broblem yn deillio o'r ffaith fod ambell gynghrair yn galluogi chwaraewr i arwyddo i fwy nag un tim. Aed â hyn i'r entychion yn achos clwb Porthmadog gyda'r sefyllfa o'i gôl-geidwad yn ymddangos i bedwar tim, a hynny yn groes i'r rheolau. O edrych o bell, nid yw hyn yn dweud fawr am 'deyrngarwch yr unigolyn'.

Rwyf wedi cyfeirio yn aml dros y blynyddoedd at chwaraewyr fel Gwilym Williams (Gwil Bach) a roddodd flynyddoedd o wasanaeth i un clwb - drwy'r cyfnodau da a'r llwm. Mor wahanol yw hi heddiw. Er nad yw rhai o'r to ifanc yn hoffi'r term, y mae ein timau yn frith o'r 'trophy hunters'. Dyma'r rhai sy'n ymuno yn aml tua diwedd y tymor, wedi bod mewn lefel

byw y byd campau hefyd. Mae'r tri bachgen yn ymddiddori. Clive yn gyn bencampwr Snwcer Prydain ond erbyn hyn yn chwaraewr pŵl, a newydd ennill y gynghrair gyda Penbont. Mae Nigel, hefyd ym myd y Snwcer, ac wedi ennill y Bencampwriaeth yng Nghynghrair Bangor. Yna Kenny, sydd yn gwneud ei enw yn y sgwar bocsi ac hefyd yn taflu dartiau i Glyntwrog. 'Dim yn bad,' oedd barn y tad am y dartiwr nesaf o'r brid.

Llawer o ddiolch i Gwil am ei arwiniad pendant ym myd y dartiau. Diolch hefyd am ei gwmni. Cawsom orig ddifyr a daeth sawl enw o hen ddyddiau'r byd criced lleol i'r fei. Gobeithio y cawn ei gwmni hefo Gwynfryn Lloyd (y *chauffer*) am sawl nos Lun eto - yn enwedig os oes 'curry' ar y fwydlen.

uwch am weddill y tymor. Tybed beth mae ffyddloniaid y timau yn deimlo, o gael eu hunain 'ar y fainc'. Efallai fod cael tlws ar ddiwedd y tymor yn 'cau cegau'.

Y mae rhai o'r clybiau llwyddiannus yn gwegian ar hyn o bryd. Clywais am un clwb yn chwarae pedair gêm mewn deg diwrnod - a dwy ohonynt yn gemau nos, a olygai deithio. Ydi'n chwaraewr amatur ni yn chwarae gormod o gemau? Ydi'r nifer o gemau, a chyflwr sawl maes yn ffactorau yn nirywiad safon ar y lefel bentrefol?

Yn ôl at y brotest. Nid yw Bethel eto'n gwybod pwy fydd eu gwrthwynebwyr yn rownd gyn-derfynol y cwpanau. Enillodd y Parlwr Du yn erbyn Amlwch, Amlwch yn protestio ac yn ennill y brotest. Ond yna'r Parlwr Du yn protestio yn erbyn dyfarniad y brotest. Mae nhw'n dweud fod Cymru yn hoff o bwyllgora - ond mae hyn yn chwerthinllyd. Yna sefyllfa'r Gynghrair. Mae Bermo wedi colli tri phwynt, ond rwan sôn am golli mwy. Pryd y daw y dyfarniad? Pwyllgor arall!

Beth yw'r ateb? Dywedodd Malcolm Allison un tro y dylid gwahardd trosglwyddiadau am dymor, fel y gcllid gweld pa ddawn oedd ym mhob tim. Hefyd, beth oedd gallu y rheolwyr/hyfforddwyr i weithio ar eu chwaraewyr i wella safon. Yn y cynghreiriau llai, e.e. Cynghrair Arfon, hoffwn weld dim ond un trosglwyddiad y flynyddyn gan chwaraewr, a dim symud i lawr cynghrair gan unrhyw chwaraewr. Buasai hyn yn ailffurfio'r syniad 'pyramid' a defnyddio'r gynghrair fel modd o feithrin chwaraewyr - y prif bwrpas i unrhyw amatur chwarae'r gêm. Unrhyw brotest?

(Parhad ar dudalen 19)